WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Asesu Corfforaethol 2016

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Cyhoeddwyd: Medi 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 463A2016



Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Non Jenkins, Chris Pugh ac Allison Rees o Swyddfa Archwilio Cymru gyda chefnogaeth John Golding, Barrie Morris, Julie Masci, Ginette Beal a Martin Ellender o Grant Thornton UK LLP, o dan gyfarwyddyd Alan Morris.


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**



Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.
Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu i ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus ac, wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen weledigaeth strategol glir a ysgogir gan arweinyddiaeth agored a chynhwysol, ac mae'n mynd ati'n frwd i ddatblygu ei drefniadau corfforaethol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell.


## Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cyflwyniad 5

Cynigion ar gyfer gwella 6

## Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor yn arddangos arweinyddiaeth agored a chynhwysol a diwylliant dysgu wrth ddatblygu ei strategaeth gorfforaethol newydd 9

Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol a thryloyw ar y cyfan, ac mae'n gweithio'n frwd i'w gwella ymhellach 14

Mae dull y Cyngor o gynllunio arian, ac o ddefnyddio technoleg yn cefnogi gwelliant mewn modd cadarnhaol. Fodd bynnag, mae angen datblygu ei drefniadau ar gyfer rheoli ei weithlu, ei asedau a'i adnoddau gwybodaeth ymhellach, er mwyn cefnogi ei flaenoriaethau corfforaethol 21

Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda gyda'i bartneriaid strategol, ond mae rhai trefniadau rheoli perfformiad heb eu datblygu'n ddigonol i arddangos canlyniadau gwell ar draws yr holl bartneriaethau 32

Mae'r Cyngor yn arddangos gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i brif wasanaethau a'i waith cynllunio gwelliannau, ac mae'n parhau i atgyfnerthu ac ymwreiddio ei drefniadau rheoli perfformiad 36

## Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 44

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Yn 2013-14, dechreuodd staff Swyddfa Archwilio Cymru gylch pedair blynedd o Asesiadau Corfforaethol ar awdurdodau gwella yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y derbyniodd pob awdurdod Asesiad Corfforaethol manwl unwaith bob pedair blynedd, yn ychwanegol at raglen flynyddol o astudiaethau gwella ac archwiliadau o'r modd y mae cynghorau'n cynllunio ac yn adrodd ar welliannau.

2 Roedd ein gwaith maes ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol yn canolbwyntio ar y graddau y mae trefniadau'r Cyngor yn cyfrannu at wella perfformiad gwasanaethau a chanlyniadau i ddinasyddion. Ceisiai'r asesiad corfforaethol ateb y cwestiwn canlynol: **A yw'r Cyngor yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau a sicrhau canlyniadau gwell i ddinasyddion?**

3 Dyma gasgliadau'r Archwilydd Cyffredinol: **Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen weledigaeth strategol glir a ysgogir gan arweinyddiaeth agored a chynhwysol, ac mae'n mynd ati'n frwd i ddatblygu ei drefniadau corfforaethol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell.** Daeth i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- a Mae'r Cyngor yn arddangos arweinyddiaeth agored a chynhwysol a diwylliant dysgu wrth ddatblygu ei strategaeth gorfforaethol newydd.
- b Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol a thryloyw ar y cyfan, ac mae'n gweithio'n frwd i'w gwella ymhellach.
- c Mae dull y Cyngor o gynllunio arian, ac o ddefnyddio technoleg yn cefnogi gwelliant mewn modd cadarnhaol. Fodd bynnag, mae angen datblygu ei drefniadau ar gyfer rheoli ei weithlu, ei asedau a'i adnoddau gwybodaeth ymhellach, er mwyn cefnogi ei flaenoriaethau corfforaethol:
  - mae'r Cyngor wedi parhau i atgyfnerthu ei drefniadau cynllunio ariannol;
  - mae cynllun gweithlu'r Cyngor yn creu fframwaith iddo reoli a rhoi ei gyflogeion ar waith, ond nid yw'n ddigon manwl ar hyn o bryd i fod yn gwbl effeithiol;
  - mae'r Cyngor wedi diweddaru ei gynllun rheoli asedau strategol, ond mae'r ffaith nad yw'r trefniadau rheoli perfformiad wedi'u datblygu'n ddigonol, a natur dameidiog systemau data asedau yn cyfyngu arno ar hyn o bryd.
  - mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o dechnoleg ddigidol ac mae ganddo strategaeth gomisiynu glir ar gyfer TG sydd yn cyflenwi gwasanaethau effeithiol o'r Gwasanaeth Rhannu Adnoddau (GRhA); ac
  - mae'r Cyngor ar ganol diweddaru a gwella ei drefniadau rheoli a llywodraethu gwybodaeth, sydd wedi dyddio ar hyn o bryd.
- ch Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda gyda'i bartneriaid strategol, ond mae rhai trefniadau rheoli perfformiad heb eu datblygu'n ddigonol i arddangos canlyniadau gwell ar draws yr holl bartneriaethau.
- d Mae'r Cyngor yn arddangos gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i brif wasanaethau a'i waith cynllunio gwelliannau, ac mae'n parhau i atgyfnerthu ac ymwreiddio ei drefniadau rheoli perfformiad.

## Cyflwyniad

4 Cynhaliom ein gwaith maes ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (y Cyngor) yn ystod mis Mawrth 2016. Er nad yw'r Asesiad Corfforaethol yn anelu i roi dadansoddiad cynhwysfawr o berfformiad holl wasanaethau'r Cyngor, mae'n adrodd ar ganlyniadau'r Cyngor a'i hanes o berfformio, yn ogystal â'r trefniadau allweddol sydd eu hangen yn sail ar gyfer gwelliannau i wasanaethau a swyddogaethau.

5 Cwblhawyd y gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a Grant Thornton ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Yn ogystal â hynny, defnyddiwyd gwaith Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn sail ar gyfer yr asesiad corfforaethol hwn.

6 Ni ddylid ystyried bod ein casgliad yn rhoi datganiad pendant ynghylch sefyllfa'r sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn, i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

7 Roedd ein gwaith maes ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol yn canolbwyntio ar y graddau y mae trefniadau'n cyfrannu at wella perfformiad gwasanaethau a'u canlyniadau i ddinasyddion. Ceisiai'r asesiad corfforaethol ateb y cwestiwn canlynol: **A yw'r Cyngor yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau a sicrhau canlyniadau gwell i ddinasyddion?**

8 Mae'r Asesiad Corfforaethol yn trafod y canlynol:

**Gweledigaeth a chyfeiriad strategol:**

- A yw gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Cyngor yn cefnogi gwelliant?

**Llywodraethu ac atebolrwydd:**

- A yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y Cyngor yn cefnogi proses gadarn ac effeithiol o wneud penderfyniadau?

**Y Defnydd o Adnoddau:**

- A yw'r Cyngor yn rheoli ei adnoddau yn effeithiol er mwyn cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo o ran perfformiad a chanlyniadau?

**Cydweithio a phartneriaethau:**

- A yw trefniadau cydweithio a phartneriaeth y Cyngor yn gweithio'n effeithiol er mwyn gwella perfformiad a chanlyniadau?

**Rheoli gwelliant:**

- A yw'r Cyngor yn rheoli ei raglen wella mewn modd effeithiol?

**Perfformiad a chanlyniadau:**

- A yw'r Cyngor yn gwneud cynnydd ar gyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo o ran perfformiad a chanlyniadau?

9 Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd, ac oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa wrth gwblhau'r gwaith hwnnw.

10 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi cael hyd i bethau y gellid eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a Wneud cynigion ar gyfer gwella - byddwn yn gwneud y cynigion hynny yn yr adroddiad hwn ac yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd.

b Gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith. Nid oes unrhyw rheswm i wneud argymhellion o'r fath.

c Cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion. Nid oes unrhyw reswm i gynnal arolygiad o'r fath.

ch Argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Nid oes unrhyw reswm gennym i wneud argymhelliad o'r fath.

11 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Cewch rannu eich safbwyntiau â ni drwy anfon e-bost i info@audit.wales neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella |
| --- |
| **Gweledigaeth a chyfeiriad strategol** |
| C1 Dylai'r Cyngor sicrhau cytundeb ar y cynllun busnes y mae'n ei ddatblygu, a bod y cynllun hwnnw'n cael ei roi ar waith mewn da bryd cyn dechrau blwyddyn ariannol 2017-18, er mwyn creu eglurder ynghylch sut y caiff tair blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol 3 (CC3) eu cyflawni, a nodi meysydd heb flaenoriaeth y gostyngir cyllid ac adnoddau eraill ar eu cyfer. |
| C2 Er mwyn sicrhau bod gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu rhoi ar waith a'u hymwreiddio'n effeithiol, dylai'r Cyngor:<br>• lunio canllawiau creiddiol i reolwyr gan anelu i drawsnewid trefniadau llywodraethu er mwyn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio, yn hytrach na diwygio trefniadau presennol yn unig;<br>• sicrhau bod y cynllun gweithredu yn cynnwys camau gweithredu, graddfeydd amser a chyfrifoldebau wedi'u dylunio i gyflawni'r ymagwedd fwy radical a thrawsnewidiol hon;<br>• asesu a dadansoddi ffactorau (mewnol ac allanol) sydd yn atal y Cyngor rhag gweithredu'r Ddeddf yn effeithiol, a gweithredu camau lle bo modd er mwyn ymdrin â'r rhwystrau hyn;<br>• cytuno ar ddull o gyfathrebu ac ymgysylltu â staff sydd yn adlewyrchu'r lefel dda o ddealltwriaeth a brwdfrydedd ymhlith uwch-reolwyr, a gweithredu'r dull hwnnw;<br>• creu cynllun clir i ymwreiddio amcanion llesiant y Cyngor yn ei brosesau cynllunio corfforaethol; a<br>• datblygu a chytuno ar gynllun gweithredu â phartneriaid Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus sydd, ymhlith pethau eraill, yn nodi'r gwaith sydd angen ei wneud er mwyn paratoi'r Cynllun Llesiant Lleol a meithrin dealltwriaeth gyffredin ynghylch rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |

| Cynigion ar gyfer gwella |
|---|
| **Llywodraethu**<br>C3 Dylai'r Cyngor:<br>• weithio gyda'r Aelodau er mwyn parhau i ganfod sut y gellir gwella lefelau isel o bresenoldeb mewn rhai pwyllgorau;<br>• gweithio gyda'r Aelodau er mwyn cynyddu nifer yr adolygiadau datblygiad personol a gwblheir er mwyn nodi a darparu rhaglenni hyfforddiant a chymorth priodol; a<br>• ffurfioli cylch gorchwyl a chylch gwaith y Grŵp Adolygu Llywodraethu. |
| **Y Defnydd o Adnoddau – Pobl**<br>C4 Dylai'r Cyngor:<br>• sicrhau bod cynlluniau manwl yn cael eu datblygu ar gyfer y gweithlu yn unol â'i strategaeth ar gyfer y gweithlu, a bod y cynlluniau hynny wedi'u hintegreiddio mewn cynlluniau gwasanaeth; a<br>• datblygu mecanweithiau i ddangos ei fod yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr arolwg staff diweddaraf. |
| **Y Defnydd o Adnoddau – Asedau**<br>C5 Dylai'r Cyngor:<br>• gyfuno ei wybodaeth am weithrediad a pherfformiad ei asedau i'w alluogi i atgyfnerthu ei drefniadau rheoli perfformiad; a<br>• sicrhau bod y Cynllun Rheoli Asedau Strategol yn cyfleu gofynion y Cyngor yn glir ar gyfer y dyfodol o ran asedau, er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau strategol. |
| **Y Defnydd o Adnoddau – Llywodraethu Gwybodaeth**<br>C6 Dylai'r Cyngor sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth yn cael eu diweddaru a'u cwblhau cyn gynted â phosib. |
| **Gweithio mewn Partneriaeth**<br>C7 Dylai'r Cyngor:<br>• sicrhau ei fod yn cynorthwyo'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu mesurau canlyniad clir ac adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i alluogi'r Bwrdd a'r Cyngor i ddangos bod canlyniadau'n gwella; a<br>• sicrhau bod trefniadau rheoli ac adrodd ar berfformiad ar draws prif bartneriaethau'r Cyngor, gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn: glir a chyson; dangos a yw'r canlyniadau a fwriadwyd yn cael eu sicrhau; dangos elw ar fuddsoddiad; ac yn golygu bod modd dwyn partneriaid i gyfrif ar sail perfformiad lle bo'n briodol, gan gynnwys drwy drefniadau craffu. |
| **Rheoli Risg**<br>C8 Dylai'r Cyngor gymhwyso dull cyson a chadarn o nodi a rheoli risg ar draws yr holl wasanaethau, ac ar gyfer pob penderfyniad allweddol. |

# Adroddiad manwl



# Mae'r Cyngor yn arddangos arweinyddiaeth agored a chynhwysol a diwylliant dysgu wrth ddatblygu ei strategaeth gorfforaethol newydd

## Mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth gorfforaethol newydd a ysgogir yn wleidyddol, ac mae angen sicrhau nawr fod y strategaeth honno wedi'i hymwreiddio'n effeithiol er mwyn gwella canlyniadau

12 Lansiodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol 3 (CC3) 2016-21 ar 1 Ebrill 2016. Mae'r Cynllun yn nodi tair blaenoriaeth y Cyngor:

- a Torfaen Glân a Gwyrdd
- b Codi Cyrhaeddiad Addysgol
- c Cefnogi'r trigolion mwyaf bregus yn Nhorfaen

13 Mae hyn yn ostyngiad o gymharu â'r saith blaenoriaeth a gafwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2 (CC2) 2011-2016, sef:

- a Rhoi cefnogaeth i deuluoedd a phlant sydd yn byw mewn tlodi i'w helpu drwy'r dirwasgiad.
- b Atal digartrefedd ymhlith trigolion Torfaen.
- c Diogelu plant, yn enwedig y rheiny ag anghenion addysgol (arbennig) ychwanegol, a meithrin agweddau cadarnhaol at addysg.
- ch Amddiffyn yr oedolion mwyaf bregus a chefnogi'r rhai hynny a chanddynt anableddau a chyflyrau hirdymor eraill.
- d Targedu cymorth at gymunedau amddifadus, a theuluoedd sydd yn dioddef oherwydd trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- dd Gwneud defnydd doeth o adnoddau, gan gynnwys cynnal y seilwaith priffyrdd a lleihau'r defnydd o ynni a gwastraff.
- e Cefnogi mentrau sy'n creu cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer cyfleoedd gwaith.

14 Gostyngodd y Cyngor nifer y blaenoriaethau o'r saith a nodwyd yn CC2 i'r tair a geir yn CC3. Gwnaed hynny i gydnabod bod cwmpas CC2 yn rhy eang, a bod adnoddau ariannol, ac adnoddau eraill y Cyngor, wedi'u gwasgaru'n rhy denau, heb ddigon o ffocws er mwyn ymateb yn y cyfnod hwn o gyni ariannol. Mae CC3 yn cynrychioli gweledigaeth wleidyddol y Cyngor, ac mae'r Aelodau'n ystyried y cynllun yn gyfle i ganolbwyntio adnoddau ariannol y Cyngor, a'i adnoddau eraill, ar y meysydd y mae'r trigolion yn rhoi'r mwyaf o flaenoriaeth iddynt.

15 Wrth ddatblygu ei CC3, dangosodd y Cyngor ymagwedd agored a chynhwysol. Cynhaliodd ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Tachwedd 2015 drwy gyfres o ddigwyddiadau a gynhaliwyd ym mhob rhan o Dorfaen er mwyn cael sylwadau trigolion y fwrdeistref sirol ynghylch ei flaenoriaethau newydd. Ymgynghorwyd â grwpiau gwrthbleidiol o fewn y Cyngor hefyd wrth ddatblygu CC3. Yn ein cyfweliadau â'r Aelodau a'r swyddogion, gwelsom drefniadau da ar gyfer cyfathrebu'n fewnol ynghylch CC3, a bod y swyddogion a'r Aelodau yn cefnogi'r nifer llai o flaenoriaethau newydd.

16 Yn CC3, nodir sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydweithio â'i gymunedau i greu dyfodol gwell, mwy cyfartal a mwy cynaliadwy i'w drigolion. I gefnogi gwaith a gyflawnir ar y cyd â'i gymunedau, tanategir pob un o dair o flaenoriaethau'r Cyngor gan ddisgwyliadau ynghylch yr hyn y bydd y Cyngor yn ei wneud, yr hyn y bydd y Cyngor yn ei gefnogi, a'r hyn y mae'r Cyngor yn ei ddisgwyl gan ei drigolion.

17 Yn rhan o'i strategaeth gyfathrebu, nododd y Cyngor ei brosesau a'i linellau amser yn glir er mwyn cyfathrebu ynghylch CC3 â'i staff a'i drigolion. Drwy hyn, mae'r Cyngor yn parhau â'r gwaith codi ymwybyddiaeth a gychwynnwyd ym mis Tachwedd 2015 yn rhan o ymgynghoriad cyhoeddus y Cyngor.

18 Wrth gynnal ein Hasesiad Corfforaethol ym mis Mawrth 2016, roedd y Cyngor yn datblygu cynllun busnes manwl i gefnogi'r broses o roi ei CC3 ar waith. Nodai ein Hasesiad Corfforaethol fod y Cyngor yn bwriadu i'r cynllun busnes esbonio'n union pa weithgarwch y bydd y Cyngor yn ei gyflawni a safon y gweithgarwch hwnnw er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn bwriadu i'r cynllun busnes esbonio sut y bydd y Cyngor yn cyflenwi gweddill y gwasanaethau statudol a dewisol sydd y tu hwnt i'r tri maes â blaenoriaeth o fewn y cynllun.

19 Ar gyfer 2016-17, bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio ei gynlluniau gwasanaeth cyfredol, ac mae'n bwriadu datblygu cynlluniau gwasanaeth diwygiedig o 2017-18 ymlaen, cyn gynted ag y cytunir ar ei gynllun busnes.

| Cynigion ar gyfer gwella |
| --- |
| **Gweledigaeth a chyfeiriad strategol**<br>C1 Dylai'r Cyngor sicrhau cytundeb ar y cynllun busnes y mae'n ei ddatblygu, a bod y cynllun hwnnw'n cael ei roi ar waith mewn da bryd cyn dechrau blwyddyn ariannol 2017-18, er mwyn creu eglurder ynghylch sut y caiff tair blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol 3 (CC3) eu cyflawni, a nodi meysydd heb flaenoriaeth y gostyngir cyllid ac adnoddau eraill ar eu cyfer. |

## Mae'r Cyngor yn arddangos arweinyddiaeth agored a chynhwysol, ymrwymiad i sicrhau gwelliant parhaus, a diwylliant dysgu

20 Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y Cyngor wedi sefydlu ac ymwreiddio newid diwylliannol cadarnhaol sylweddol drwy'r holl Gyngor yn y blynyddoedd diwethaf. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y Cyngor yn arddangos ac yn hyrwyddo diwylliant proffesiynol, tryloyw a chynhwysol. Ceir cydnabyddiaeth glir ymhlith yr Aelodau a'r swyddogion o bwysigrwydd hunanarfarnu a her agored a chadarn, ac ymrwymiad i sicrhau gwelliant parhaus. Mae'r Aelodau a'r swyddogion hefyd yn disgrifio'r Cyngor fel sefydliad sy'n dysgu, sy'n gwerthfawrogi safbwyntiau, cefnogaeth a heriau eraill, ac allanol, yn sail ar gyfer newidiadau a chamau gweithredu fydd yn esgor ar drefniadau a chanlyniadau gwell. Nodai ein hadolygiad fod diwylliant sefydliad sy'n dysgu sydd yn agored a thryloyw wedi'i ymwreiddio drwy'r holl Gyngor.

21 Yn ystod ei ymweliad monitro ym mis Chwefror 2013, barnodd Estyn nad oedd y Cyngor wedi gwneud digon o gynnydd wrth ymateb i'r argymhellion yn ei adroddiad arolygu o 2011. O ganlyniad i hyn, gwnaeth Estyn y Cyngor yn destun mesurau arbennig. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cael ei wneud yn destun mesurau arbennig yn drobwynt. Bryd hynny, cydnabu'r Aelodau a'r uwch swyddogion fod angen newid diwylliant yn gysylltiedig â pherfformiad. Nododd y Cyngor fod angen iddo gynyddu tryloywder a her yn gysylltiedig â'i berfformiad.

22 Yn dilyn canfyddiadau Estyn yn 2013, ymatebodd y Cyngor yn gadarnhaol a chyflwyno newid diwylliannol sylweddol o ran ei dryloywder, a lefel gryfach o her. Yn ein cyfweliadau, gwelsom fod diwylliant y Cyngor yn gefnogol, yn gynhwysol ac yn heriol iawn wrth reoli perfformiad er mwyn anelu at ganlyniadau gwell. Nodir rhagor o wybodaeth yn gysylltiedig a threfniadau rheoli perfformiad y Cyngor ym mharagraffau 124 i 130 a 140 i 147 yr adroddiad hwn.

23 Yn ystod ein Hasesiad Corfforaethol ym mis Mawrth 2016, arddangoswyd diwylliant y Cyngor mewn sawl ffordd. Er enghraifft: mynegodd swyddogion fod eu syniadau'n cael eu hystyried; datblygiad sesiynau Asesu Perfformiad Corfforaethol y Cyngor er mwyn sicrhau her gadarn ac amserol yn wyneb perfformiad gwael; y prosesau sydd ar waith i'r Cabinet ystyried a monitro argymhellion craffu; a'r cyd-weithdai craffu a gynhaliwyd gan y Cyngor wrth bennu ei gyllideb ar gyfer 2016-17, a'i gynlluniau arbed ar gyfer 2016-17 a 2017-18.

## Mae uwch-arweinyddiaeth y Cyngor yn arddangos dealltwriaeth a pherchnogaeth dda ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac wedi dechrau integreiddio'r pum ffordd o weithio i'r broses benderfynu, ond mae'n cydnabod nad oes trefn systematig na chyson ar gyfer gwneud hyn eto

24 Er mwyn llywio ein Hasesiad Corfforaethol ar gyfer y Cyngor, cynhaliom adolygiad olrhain o drefniadau'r Cyngor wrth baratoi am ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD), a geisiai ateb y cwestiwn: **A yw'r Cyngor yn defnyddio'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy i adolygu'r gyfres graidd o weithgareddau llywodraethu corfforaethol a nodwyd yn y canllawiau?**

25 Yn ei adborth i'r Cyngor, nodwyd bod canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Deddf LlCD yn datgan bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus seilio'r hyn y maent yn ei wneud, eu dull o weithredu, a'u dull o gyfleu'r gwahaniaeth y maent yn ei wneud wrth gyflawni'r nodau llesiant, ar yr egwyddor o ddatblygu mewn modd cynaliadwy. Mae'n fuddiol felly fod CC3 y Cyngor yn nodi y bydd y Cyngor yn gweithredu'n unol â'r egwyddor honno.

26 Yn ôl canllawiau statudol Deddf LlCD, y ddyletswydd llesiant yw dyletswydd craidd cyrff cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys o dan y Ddeddf. Mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus osod amcanion llesiant sydd yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posib at gyflawni'r nodau llesiant. Bydd hi'n bwysig ir Cyngor ymwreiddio'r broses o osod ei amcanion llesiant (a'r camau a gymerir i gyflawni'r amcanion hynny) yn ei waith cynllunio corfforaethol. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i ddangos sut mae'n bwriadu cynyddu cyfraniad y Cyngor at bob un o'r saith o nodau llesiant hyd yr eithaf. Yn ogystal â sicrhau bod cynllunio corfforaethol yn datblygu i fod yn fecanwaith ar gyfer gosod amcanion llesian, mae'r canllawiau hefyd yn nodi y gallai fod yn ddefnyddiol i gyrff cyhoeddus ystyried y cysylltiadau rhwng eu proses cynllunio corfforaethol a'r broses o ddatblygu cynlluniau llesiant lleol.'

27 Daethom hefyd i'r casgliad fod Aelodau a swyddogion y Cyngor yn darparu arweinyddiaeth ddeallus a brwdfrydig, a bod y cyfrifoldeb am Ddeddf LlCD yn cael ei wasgaru ar draws ei dîm arweinyddol. Mae cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu ac yn cael ei reoli gan Grŵp Adolygu Llywodraethu'r Cyngor, ond ar adeg ein hadolygiad nid oedd yn cynnwys digon o fanylion am y flaenoriaeth y dylid ei rhoi i gamau gweithredu, a'r cyfrifoldeb amdanynt ar draws y Cyngor.

28 O 1 Ebrill 2016, sefydlodd y Cyngor, ynghyd â'i bartneriaid, Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Torfaen, ac mae'r Cyngor yn cydweithio â chynghorau eraill yng Ngwent ar dull integredig o gynnal asesiad o anghenion ar draws y Fwrdeistref Sirol. Fodd bynnag, nodwyd yn ein cyfweliadau nad oes lefel gyson o ddealltwriaeth eto ymhlith yr Aelodau ac uwch swyddogion ynghylch sut y bydd rôl y BGC yn wahanol i rôl y Bwrdd Gwasanaethau Lleol blaenorol.

29 Ar adeg ein Hasesiad Corfforaethol, nid oedd y Cyngor eto’n gwneud defnydd llawn o’r pum ffordd o weithio fel fframwaith ar gyfer herio’r ffyrdd presennol o wneud busnes, ac o ganfod yr hyn sydd angen ei newid. Nid oes unrhyw ganllawiau craidd clir a chyson ychwaith ar gyfer rheolwyr ynghylch sut i ddefnyddio’r pum ffordd o weithio i ganfod a gweithredu’r newid fydd ei angen yn y saith gweithgaredd llywodraethu.

| Cynigion ar gyfer gwella |
| --- |
| **Gweledigaeth a chyfeiriad strategol** |
| C2 Er mwyn sicrhau bod gofynion Deddf Lles Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu rhoi ar waith a’u hymwreiddio’n effeithiol, dylai’r Cyngor:<br>• lunio canllawiau creiddiol i reolwyr gan anelu i drawsnewid trefniadau llywodraethu er mwyn adlewyrchu’r pum ffordd o weithio, yn hytrach na diwygio trefniadau presennol yn unig;<br>• sicrhau bod y cynllun gweithredu yn cynnwys camau gweithredu, graddfeydd amser a chyfrifoldebau wedi’u dylunio i gyflawni’r ymagwedd fwy radical a thrawsnewidiol hon;<br>• asesu a dadansoddi ffactorau (mewnol ac allanol) sydd yn atal y Cyngor rhag gweithredu’r Ddeddf yn effeithiol, a gweithredu camau lle bo modd er mwyn ymdrin â’r rhwystrau hyn;<br>• cytuno ar ddull o gyfathrebu ac ymgysylltu â staff sydd yn adlewyrchu’r lefel dda o ddealltwriaeth a brwdfrydedd ymhlith uwch-reolwyr, a gweithredu’r dull hwnnw;<br>• creu cynllun clir i ymwreiddio amcanion llesiant y Cyngor yn ei brosesau cynllunio corfforaethol; a<br>• datblygu a chytuno ar gynllun gweithredu â phartneriaid Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus sydd, ymhlith pethau eraill, yn nodi’r gwaith sydd angen ei wneud er mwyn paratoi’r Cynllun Llesiant Lleol a meithrin dealltwriaeth gyffredin ynghylch rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |

# Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol a thryloyw ar y cyfan, ac mae'n gweithio'n frwd i'w gwella ymhellach

## Mae rolau a chyfrifoldebau clir wedi'u cefnogi gan werthoedd ac ymddygiadau priodol yn galluogi'r Aelodau i ddeall a chyflawni eu swyddogaethau, a bydd camau gan y Cyngor i ymdrin â rhai anghysondebau ym mhresenoldeb aelodau yn cynyddu effeithiolrwydd pwyllgorau ymhellach

30 Mae cyfansoddiad y Cyngor, a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Chwefror 2016 yn nodi rolau a chyfrifoldebau Aelodau ac uwch swyddogion o fewn y Cyngor, ac yn darparu'r fframwaith y mae'n rhaid i Aelodau etholedig weithredu'n unol ag ef. At ei gilydd, canfuom fod gan yr aelodau ddealltwriaeth glir o bwrpas, rolau a chyfrifoldebau o fewn y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu.

31 Bydd presenoldeb yr Aelodau yn aml yn isel yng nghyfarfodydd pwyllgorau trosolwg a chraffu'r Cyngor, a gallai hynny fod yn arwydd nad yw rhai o'r Aelodau mor effeithiol ag y gallent fod wrth gyflawni'r rolau a'r cyfrifoldebau a roddwyd iddynt yn sgil cael eu hethol yn ddemocrataidd. Deallwn nad yw hyn yn berthnasol i'r holl Aelodau, dim ond lleiafrif ohonynt. Bu Pwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor yn ymatebol wrth ymchwilio i gwynion ynghylch ymddygiad yr aelodau.

32 Mae'r Cyngor yn mynd ati'n frwd i ymdrin â phresenoldeb yr aelodau yng nghyfarfodydd ei bwyllgorau trosolwg a chraffu, oherwydd effaith bosibl hynny ar effeithiolrwydd pwyllgorau'r Cyngor. Mae Pwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor yn adolygu presenoldeb yr Aelodau'n rheolaidd, ac adroddir yn gyhoeddus ar hynny. Mae Pwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor hefyd wedi cytuno i gofnodi'r rheswm dros fod yn absennol mewn cyfarfodydd er mwyn deall pam bod presenoldeb rhai o'r Aelodau mor isel. Mae'r Cyngor hefyd wedi newid ei drefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r Aelodau er mwyn ceisio gwella presenoldeb, ee drwy gyflwyno ymagwedd arddull gweithdy at gyd-gyfarfodydd ei holl bwyllgorau trosolwg a chraffu, ac mae'n parhau i ystyried yr opsiynau.

33 Mae'r tabl isod yn dangos lefelau presenoldeb yr Aelodau ar gyfer pob un o bwyllgorau trosolwg a chraffu'r Cyngor yn 2015-16[1]:

| Pwyllgor Trosolwg a Chraffu | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd 2015-16 | Y gyfradd presenoldeb (%) |
|---|---:|---:|
| Cymunedau Mwy Diogel | 4 | 45 |
| Iachach | 6 | 58 |
| Glanach | 5 | 60 |
| Dysgu | 6 | 65 |
| Adnoddau a Busnes Corfforaethol | 5 | 78 |

1 Adolygiad o Drosolwg a Chraffu ym mlwyddyn Gyngor 2015-16. Cyfarfod y Cyngor 12 Ebrill 2016

34 Yn 2013, sefydlodd y Cyngor Grŵp Adolygu Llywodraethu mewn ymateb i'n hadroddiad, **Adolygiad Llywodraethu Awdurdod Lleol**, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013.Mae'r Grŵp Adolygu Llywodraethu wedi cyfarfod bob chwarter er mwyn adolygu trefniadau'r Cyngor mewn perthynas â'i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol statudol. Yn ystod 2015-16, roedd y Grŵp yn cyfarfod yn amlach (bob mis), ac yn ystod y cyfnod hwn cynigiwyd briff i'r Dirprwy Arweinydd ar ddechrau pob cyfarfod, fel y deilydd portffolio sydd yn gyfrifol am lywodraethu corfforaethol.

35 Bu adolygu trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn sail ar gyfer paratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn rhan o gylch gwaith y Grŵp Adolygu Llywodraethu erioed. Fodd bynnag, yn y gorffennol, canolbwyntiai'r rôl honno'n bennaf ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae cylch gwaith a dull y grŵp hwn o weithredu bellach yn ehangach ac yn fwy strategol, er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu da ar waith, yn sylfaen gadarn i gefnogi a thanategu cyflawniad y CC3 newydd. Fodd bynnag, nid yw cylch gorchwyl y Grŵp Adolygu Llywodraethu wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

36 Yn ystod ein Hasesiad Corfforaethol ym mis Mawrth 2016, canfuom berthynas gefnogol rhwng yr Aelodau a'r swyddogol, a bod barn yr Aelodau ynghylch y gefnogaeth y maent yn ei derbyn gan swyddogion yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae adolygiad o Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2013-14 a 2014-15 yn bod nifer y staff cyfwerth ag amser llawn o fewn y gwasanaethau democrataidd wedi gostwng o 13.06 yn 2013-14 i 11.76 yn 2014-15. Yn nhymor yr hydref 2015, creodd y Cyngor rôl y Swyddog Hyfforddiant ac Ymchwil Aelodau Corfforaethol i roi cefnogaeth benodol ar gyfer dysgu a datblygu'r aelodau, yn dilyn gostyngiadau yn sgil cyfuno Tîm Gwasanaethau'r Aelodau a thîm y Gwasanaethau Democrataidd yn ystod 2014-15. Mae'r Cyngor yn annog Aelodau i fod yn fwy hunangynhaliol wrth gwblhau tasgau gweinyddol yn gysylltiedig â'u rolau.

37 Yn 2012, cyflwynodd y Cyngor adolygiadau datblygiad personol dewisol Yn 2012-13, cynhaliodd 80 y cant o'i Aelodau adolygiad datblygiad personol. Gostyngodd canran yr Aelodau a gynhaliodd adolygiadau datblygiad personol i 43 y cant yn 2013-14, a chodi rhyw fymryn i 50 y cant yn 2014-15. Fodd bynnag, yn 2015-16, dim ond dau Aelod a ofynnodd am adolygiad datblygiad personol, ac ar adeg ein Hasesiad Corfforaethol ym mis Mawrth 2016, nid oedd yr adolygiadau hyn wedi'u trefnu.

38 Ym mis Chwefror 2016, cynhaliodd y Swyddog Hyfforddiant ac Ymchwil Aelodau Corfforaethol arolwg gyda 42 o'r 44 o Aelodau er mwyn canfod beth oedd eu hanghenion hyfforddi a datblygu. Canfu'r arolwg fod 55 y cant (neu 23 o'r Aelodau) yn teimlo nad oes angen unrhyw hyfforddiant na datblygiad arnynt, a chadarnhaodd 45 y cant nad oeddent yn ystyried hyfforddiant a datblygiad yn flaenoriaeth iddynt hwy eu hunain.

39 Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant cyffredinol i'r Aelodau, ond yn cydnabod y byddai'n fuddiol cael hyfforddiant â mwy o ffocws sydd yn seiliedig ar anghenion Aelodau unigol. Yn ei arolwg o'r aelodau ym mis Chwefror 2016, gofynnodd y Cyngor a ddylid neilltuo cyllideb ar gyfer hyfforddiant a datblygiad pob Aelod, a beth fyddai lefel briodol y gyllideb honno. Cafwyd ymateb amrywiol ar adeg ein Hasesiad Corfforaethol ym mis Mawrth 2016. Roedd y Cyngor yn adolygu'r canfyddiadau gyda'r bwriad o greu cynllun gweithredu er mwyn ymdrin â chanfyddiadau'r arolwg.

40 Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda sefydliadau addysg uwch i ddatblygu arweinwyr i'r dyfodol o dan Raglen Arweinyddol, gan arwain at gymhwyster Ôl-radd mewn Ymarfer Proffesiynol (Arwain Gwasanaeth Cyhoeddus). Cynigir y rhaglen ddwy flynedd o hyd i Aelodau a chyflogeion o bob rhan o'r Cyngor. Mae dau o Aelodau'r Cyngor yn dilyn y rhaglen hon ar hyn o bryd.

Cynigion ar gyfer gwella

**Llywodraethu**

C3 Dylai'r Cyngor:

- weithio gyda'r Aelodau er mwyn parhau i ganfod sut y gellir gwella lefelau isel o bresenoldeb mewn rhai pwyllgorau;
- gweithio gyda'r Aelodau er mwyn cynyddu nifer yr adolygiadau datblygiad personol a gwblheir er mwyn nodi a darparu rhaglenni hyfforddiant a chymorth priodol; a
- ffurfioli cylch gorchwyl a chylch gwaith y Grŵp Adolygu Llywodraethu.

## Mae'r trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau ar draws y Cyngor yn effeithiol a thryloyw ar y cyfan

41 Mae'r Cyngor yn cofnodi ac yn adolygu'r holl benderfyniadau a wneir gan ei Gabinet erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor llawn, sydd yn gweithredu fel y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mae'r penderfyniadau a'r cofnodion ar gael ar wefan y Cyngor. Mae unrhyw benderfyniadau a gaiff eu dirprwyo i Aelodau Cabinet unigol hefyd ar gael i'w hadolygu ar wefan y Cyngor, gan gynnwys y penderfyniad ac adroddiadau a phapurau cefnogol.

42 Wrth inni arsylwi amrywiaeth o gyfarfodydd pwyllgor a chraffu'r Cyngor, roedd yr Aelodau'n ymddwyn yn broffesiynol, a gwelwyd hefyd heriau a dadleuon adeiladol.

43 Yn 2015-16, gweithredodd y Cyngor ei system rheoli pwyllgorau, modern.gov, ac mae ei holl feysydd gwasanaeth yn defnyddio'r system hon i gyflwyno'r penderfyniadau sydd ar ddod i'r Cyngor a'r Cabinet, er mwyn poblogi blaengynllun gwaith y Weithrediaeth.

44 Mae Blaengynllun Gwaith y Weithrediaeth ar gael ar wefan y Cyngor, ac fe'i hyrwyddir drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i hysbysu'r cyhoedd a benderfyniadau sydd ar ddod.

45 Yn rhan o'n gwaith maes, buom yn adolygu penderfyniad y Cyngor i ganiatáu Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i ymuno â phartneriaeth y Gwasanaeth Rhannu Adnoddau (GRhA), fel yr ystyriwyd gan ei Gabinet ar 23 Chwefror 2016. Rhoddwyd gwybodaeth fanwl i'r aelodau i'w galluogi i ddod i benderfyniad, ac roedd y Prif Swyddog ar gae i gyflwyno'r adroddiad ac ateb cwestiynau. Fodd bynnag, canfuom fod cofrestr risg ategol y GRhA a oedd yn gysylltiedig â'r penderfyniad hwn yn anghyflawn. Nid oedd y gofrestr honno ychwaith yn rhoi dadansoddiad digon cynhwysfawr na manwl o'r risgiau dan sylw, er mwyn cefnogi proses benderfynu'r Aelodau. Cyfeirir at hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn yn rhan o'n hadolygiad o drefniadau rheoli risg y Cyngor.

46 Mae'r Cyngor yn cyhoeddi cylchgrawn cymunedol, 'Llais Torfaen', chwe gwaith y flwyddyn. Mae'r cylchgrawn yn darparu gwybodaeth gymunedol a hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd am fusnes y Cyngor, fel cyllideb 2016-17 ac annog pob i fod yn ofalwyr maeth. Mae'r Cyngor hefyd wedi cynnwys 'cyfathrebu' yn rhan o'r tair blaenoriaeth gorfforaethol newydd yng Nghynllun Corfforaethol 3 (CC3) ac wedi gofyn i bobl ymuno â'i Banel Pobl.

47 Panel ymgynghorol sydd yn cynnwys pobl sy'n byw yn Nhorfaen yw Panel Pobl Torfaen. Ei nod yw rhoi cyfle i bobl leol gael dweud eu dweud am wasanaethau cyhoeddus a bywyd yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r sector Iechyd, Heddlu Gwent, Cynghrair Gwirfoddol Torfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi sefydlu'r panel gyda'i gilydd. ac mae'r Cyngor yn ei reoli ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen[2].

48 Ceir hyd i ymgyngoriadau byw, ac ymgyngoriadau arfaethedig y Cyngor ar wefan y Cyngor, My Say. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddinasyddion fynegi eu barn ac amlygu'r hyn y maent yn ei ddisgwyl gan wasanaethau cyhoeddus lleol.

## Mae'r trefniadau craffu wedi datblygu i fod yn fwy cadarn, ac yn cael eu hatgyfnerthu ymhellach er mwyn gwella effeithiolrwydd

49 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno sesiynau gweledigaeth blynyddol ar gyfer pob pwyllgor craffu. Defnyddir y sesiynau hyn gan bwyllgorau craffu i gytuno ar yr eitemau y bwriedir craffu arnynt yn y flwyddyn sydd i ddod, ac fel bo modd gosod materion yn ôl trefn blaenoriaeth. Mae agendâu pwyllgorau craffu yn llawer llai swmpus fel bod digon o amser i ganolbwyntio ar yr eitemau â blaenoriaeth a ddetholwyd i'w hadolygu. Roedd swyddogion ac Aelodau'r Cyngor yn cytuno bod pwyllgorau craffu yn fwy effeithiol oherwydd hyn.

2 Fel y nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, cafodd byrddau gwasanaethau lleol eu disodli o 1 Ebrill 2016, gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Mae'n ofyniad statudol i bob ardal awdurdod lleol gael BGC, ac i'r bwrdd hwnnw gynnal asesiad o lesiant ar draws yr ardal, a chyhoeddi cynllun llesiant yn dilyn hynny.

50 Mae Swyddogion Cefnogi Craffu y Cyngor wedi gweithio gydag Aelodau i wella ansawdd y drafodaeth a'r cwestiynau mewn cyfarfodydd craffu, drwy friffio aelodau cyn y cyfarfodydd a thrwy ddarparu hyfforddiant ychwanegol. O ganlyniad i hyn, mae hyder yr Aelodau i herio a gofyn cwestiynau da wedi cynyddu. Serch hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwneud gwaith pellach er mwyn gwella cwestiynau ategol.

51 Mae pob un o bwyllgorau craffu'r Cyngor yn gwneud argymhellion, ac mae'r Cabinet wedyn yn adolygu'r argymhellion hynny ac yn ymateb iddynt. Er bod y Cabinet yn rhoi ymateb bob tro, nodwyd nad yw effaith yr ymatebion hynny'n ddigonol i ymateb yn llawn i argymhellion pwyllgorau craffu a'r materion a godwyd.

52 Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflwyno ymagwedd gweithdy at holl gyd-gyfarfodydd ei bwyllgorau craffu, lle daw'r holl bwyllgorau craffu ynghyd i hwyluso trafodaeth ar faterion, gwella ansawdd yr her gan aelodau ac, yn sgil hynny, effeithiolrwydd cyffredinol y pwyllgorau. Hyd yma, mae cyd-gyfarfodydd yr holl bwyllgorau craffu wedi cael eu cynnal i adolygu cyllideb a chynlluniau gwasanaeth y Cyngor ar gyfer 2016-17. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen cynnydd pellach er mwyn gwella trefniadau craffu, ac mae'n bwriadu adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau yn ystod 2016-17.

53 Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod ym mharagraff 31, gall lefelau presenoldeb isel rhai Aelodau Cyngor yng nghyfarfodydd ei bwyllgorau trosolwg a chraffu amharu ar effeithiolrwydd cyffredinol y pwyllgorau craffu hynny.

## Mae prosesau sicrwydd a hunanwerthuso'r Cyngor yn gadarn, ac yn ei alluogi i gynnal asesiad effeithiol o'i fframwaith llywodraethu corfforaethol, a chanfod pa rannau o'r fframwaith sydd angen eu gwella eto

54 Mae Pwyllgor Archwilio'r Cyngor yn gweithio i wella ei effeithiolrwydd. Mae ganddo Gadeirydd newydd, ac am y tro cyntaf, mae Aelodau'r Pwyllgor Archwilio wedi cynnal hunanasesiad sydd yn cadw at ganllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Nodwyd yn yr hunanasesiad ym mha feysydd y gallai'r Pwyllgor Archwilio fod yn fwy effeithiol, ac fe gytunodd y Pwyllgor Archwilio ar gynllun gweithredu i ymdrin â'r meysydd hyn yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2016.

55 Mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn rhoi sicrwydd digonol ac effeithiol i reolwyr y Cyngor. Cynhelir ymgynghoriad â Phrif Swyddogion a Thîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor ar gynllun blynyddol seiliedig ar risg y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, a bydd Pwyllgor Archwilio'r Cyngor yn cytuno ar y cynllun hwnnw. Cynhaliodd Pennaeth Archwilio Mewnol y Cyngor hunanasesiad o drefniadau Archwilio Mewnol y Cyngor yn erbyn safonau Archwilio Mewnol newydd y Sector Cyhoeddus. Nodwyd nifer fach o gamau gweithredu yn sgil adolygiad y Pennaeth Archwilio Mewnol, ond ni chanfuwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio sylweddol.

56 Mae'r cynllun blynyddol Archwilio Mewnol yn trafod holl systemau corfforaethol allweddol y Cyngor. Fodd bynnag, gallai Archwilio Mewnol gyflawni rôl fwy ragweithiol o ran cynorthwyo'r Cyngor i ddarparu sicrwydd ynghylch materion strategol allweddol, blaenoriaethau Corfforaethol a blaenoriaethau'r cynllun busnes, yn enwedig wrth i'r Cyngor ymaddasu a newid i wynebu heriau cyfredol a heriau'r dyfodol. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o asesu fframwaith Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn barhaus, ac yn bresennol yn holl gyfarfodydd Grŵp Adolygu Llywodraethu'r Cyngor er mwyn herio swyddogion a'u cynghori ynghylch trefniadau presennol.

57 Yn sgil canlyniadau ymweliad monitro Estyn ym mis Chwefror 2013, a gwaith dilynol Bwrdd Adfer y Cyngor mewn perthynas â Gwasanaeth Addysg y Cyngor, cafodd y Cyngor gyfle i fyfyrio ar ei drefniadau hunanwerthuso ehangach. Cyn ein Hasesiad Corfforaethol, gofynnodd y Cyngor am gefnogaeth allanol drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i gynnal ymarfer hunanwerthuso ffurfio ar draws ei holl wasanaethau er mwyn asesu ei drefniadau a'i berfformiad. Cwblhawyd peilot y Cyngor o'r broses hunanwerthuso newydd yn nhymor yr hydref 2015, ac mae'r fethodoleg wedi cael ei gwerthuso a'i diweddaru yn dilyn y peilot. Cyflwynodd y Cyngor adroddiad 'gwersi a ddysgwyd' i'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2015 i roi crynodeb o'r gwerthusiad hwn. Mae'r Cyngor yn bwriadu ailadrodd ymarfer hunanwerthuso mewnol bob blwyddyn.

58 Hefyd yn ystod 2015-16, comisiynodd y Cyngor gefnogaeth allanol i asesu a gwella ei drefniadau llywodraethu corfforaethol, ac i sicrhau bod ganddo fframwaith llywodraethu da ar waith wrth sefydlu ei CC3 newydd. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, nododd Uwch Dîm Arwain y Cyngor nifer o ffrydiau gwaith a chamau gweithredu er mwyn ymdrin â'r gwelliannau sydd eu hangen i drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Adroddir ar gynnydd yn gysylltiedig â phob un o'r camau hyn yng nghyfarfodydd Grŵp Adolygu Llywodraethu'r Cyngor.

59 Mae'r Cyngor yn paratoi ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol mewn modd amserol bob blwyddyn, ac adroddir ar hwn wrth ei Grŵp Adolygu Llywodraethu ac i'w Bwyllgor Archwilio. Mae hunanasesiad y Cyngor ei hun o'i reolaeth fewnol a'i fframwaith llywodraethu, drwy ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol, wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor, cesglir bod y Cyngor, at ei gilydd, yn parhau i gynnal systemau rheolaeth fewnol da ac yn nodi'r agweddau hynny lle mae angen gwella ei drefniadau.

60 Mae gan y Cyngor fecanweithiau cadarn er mwyn cipi a monitro ei gynnydd wrth ymateb i argymhellion adolygiadau allanol. Mae gan y Cyngor gynllun gweithredu cynhwysfawr cyfun ar waith sydd yn olrhain cynnydd yn gysylltiedig â holl argymhellion rheoleiddwyr allanol. Mae Pennaeth Cymorth a Chudd-wybodaeth Busnes y Cyngor yn diweddaru'r cynllun gweithredu'n unol â'r cynnydd a wneir, ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu'r diweddariadau hyn bob chwe mis.

## Mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol ar waith ar gyfer y gwasanaethau hynny a gaiff eu cyflenwi drwy Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen

61 Mae'r Cyngor wedi cefnogi sefydlu tri endid sydd naill ai'n cyflenwi gwasanaethau allanol neu'n cyflawni swyddogaethau corfforaethol. Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen, y Gwasanaethau Rhannu Adnoddau a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Yn rhan o'n Hasesiad Corfforaethol ym mis Mawrth 2016, rydym wedi adolygu'r trefniadau sydd ar waith o ran atebolrwydd a llywodraethu ar gyfer Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen.

62 Mae'r Cyngor wedi sefydlu fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen, a gafodd ei adolygu gan ei Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach cyn cael ei fabwysiadu. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys cyfarfodydd misol a chwarterol rhwng swyddogion y Cyngor ac Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen, sydd yn golygu bod modd trafod materion a'u huwchgyfeirio yn ôl yr angen.

63 Caiff perfformiad yr Ymddiriedolaeth Hamdden ei fonitro yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol drwy ddefnyddio system rheoli perfformiad y Cyngor, Ffynnon. Cytunwyd ar y dangosyddion perfformiad allweddol pan sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth, ac maent wedi esblygu wrth i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu. Trafodir perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol hefyd yn y cyfarfodydd misol a chwarterol a ddisgrifir ym mharagraff 62. Gall Aelodau'r Cyngor hefyd herio ac asesu perfformiad yr Ymddiriedolaeth Hamdden drwy Seminar Blynyddol i'r Aelodau yn gysylltiedig â'r Ymddiriedolaeth Hamdden. Cynhaliwyd y seminar diweddaraf ym mis Ebrill 2016.

64 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cyfrifoldebau'r Aelodau'n fwy cymhleth yn achos yr Aelodau hynny a benodwyd yn Ymddiriedolwr neu'n Gyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth Hamdden. Gan hynny, darparwyd hyfforddiant arbenigol er mwyn eu galluogi i ddeall eu rôl a'u cyfrifoldebau tuag at yr endid allanol, a thuag at y Cyngor. Yn ogystal â hyn, mae Swyddog Monitro'r Cyngor ar gael yn barhaus i roi cymorth a chyngor. Yn ein cyfweliadau, fodd bynnag, nodwyd bod rhai o'r aelodau'n ansicr ynghylch rolau a chyfrifoldebau perthynol yr Aelodau hynny o'r Cyngor a oedd yn gweithredu fel ymddiriedolwr ar ran y Cyngor, a hefyd fel Cynghorydd.

# Mae dull y Cyngor o gynllunio arian, ac o ddefnyddio technoleg yn cefnogi gwelliant mewn modd cadarnhaol. Fodd bynnag, mae angen datblygu ei drefniadau ar gyfer rheoli ei weithlu, ei asedau a'i adnoddau gwybodaeth ymhellach, er mwyn cefnogi ei flaenoriaethau corfforaethol

## Mae'r Cyngor wedi parhau i atgyfnerthu ei drefniadau cynllunio ariannol

65 Yn ystod 2015-16, gwnaeth y Cyngor gynnydd da wrth weithredu'r holl gynigion ar gyfer gwella a adroddwyd yn ein Hasesiad o'r Sefyllfa Ariannol 2014-15, a datblygodd gysylltiadau clir rhwng ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a'i Gynllun Corfforaethol 2011-16 (CC2).

66 Roedd CC2 yn sail ar gyfer fframwaith cynllunio corfforaethol a gweledigaeth strategol y Cyngor, ac fe barhaodd i ddylanwadu ar ei benderfyniadau o ran cyflenwi gwasanaethau a dyrannu adnoddau hyd 2016.

67 Penderfynodd y Cyngor, ym mlynyddoedd olaf cyflawni'r CC2, fod angen iddo ganolbwyntio ar gyfres lai a manylach o amcanion. Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fantoli'r gyllideb ac yn ymateb i'r gostyngiadau parhaus mewn cyllid cenedlaethol, y mae wedi lleihau'r gwelliannau y mae'n bwriadu eu cyflawni yn erbyn yr holl amcanion a osodwyd ganddo yn CC2.

68 Lansiodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol newydd 2016-2021 (CC3) ar 1 Ebrill 2016. Mae'r Cynllun yn nodi tair blaenoriaeth ar gyfer y pum mlynedd rhwng 2015-16 a 2020-21. Dyma'r blaenoriaethau:

a Torfaen glân a gwyrdd

b Codi cyrhaeddiad addysgol

c Cefnogi'r trigolion mwyaf bregus yn Nhorfaen

69 CC3 yw gweledigaeth wleidyddol y Cyngor ar gyfer y fwrdeistref sirol. Nod y cynllun yw galluogi'r Aelodau i dargedu adnoddau at y meysydd y mae'r Cyngor, a'i drigolion, wedi penderfynu rhoi'r fwyaf o flaenoriaeth iddynt.

70 Mae CC3 bellach yn rhan allweddol o fframwaith corfforaethol cyffredinol y Cyngor ar gyfer cynllunio ariannol, sydd yn galluogi'r Cyngor i adolygu a herio ei berfformiad ariannol, a monitro ei wariant yn erbyn y gyllideb. Wrth gynnal ein Hasesiad Corfforaethol ym mis Mawrth 2016, roedd y Cyngor yn datblygu cynllun busnes ar gyfer y Cyngor cyfan er mwyn cefnogi gweithrediad CC3. Nod y cynllun busnes yw disgrifio'r gweithgareddau penodol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cyflawni, a lefel y gwasanaeth y mae'n anelu i'w gyflenwi oddi mewn i derfynau'r adnoddau ariannol sydd ar gael i fodloni'r tair blaenoriaeth yn CC3.

71 Yn 2016-17, bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio ei gynlluniau gwasanaeth presennol ar gyfer blwyddyn gyntaf CC3. O 2017-18 ymlaen, bydd yn creu cynlluniau gwasanaeth diwygiedig i danategu'r cynllun busnes, cyn gynted ag y bydd wedi'i ddatblygu'n llawn.

72 Yn ychwanegol at CC3 a'r cynllun busnes cysylltiedig, mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun arbedion, sydd yn elfen allweddol o'i fframwaith cynllunio ariannol. Ar gyfer 2015-16, datblygodd y Cyngor gynllun arbedion gwerth £9.6 miliwn i wneud iawn am ei fwlch ariannu, a mantoli'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn. Yn 2015-16, cafwyd pwysau ariannol ar y Cyngor o ddau gyfeiriad, y naill oedd gostyngiad o £4.3 miliwn yng nghyllid Llywodraeth Cymru, a'r llall ar ffurf pwysau ychwanegol gwerth £5.3 miliwn ar wasanaethau ar draws y Cyngor. Roedd y pwysau ychwanegol ar wasanaethau yn cynnwys chwyddiant, cynnydd yn y galw, a chyflwyno gwasanaethau ychwanegol yn sgil newid mewn polisi lleol y cytunodd yr Aelodau arno. Rhoddodd y Cyngor ddiffiniad a chostau clir ar gyfer yr holl fesurau arbed a nodwyd ar gyfer y meysydd gwasanaeth yn 2015-16.

73 Mae Cabinet ac Aelodau'r Cyngor wedi herio a chraffu'n fanwl ar gynllun arbedion 2015-16. Cyfarfu Fforwm Datblygu Polisi'r Cyngor[3] ar bedwar achlysur rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2014 i adolygu'r cynllun arbedion yn sgil y drafft o sefyllfa setliad Llywodraeth Cymru, ac ystyriodd effaith ddisgwyliedig y cynigion arbed a gyflwynwyd gan ei feysydd gwasanaeth. Yn rhan o'r ystyriaethau hyn, cytunodd y Cyngor i ddiogelu ei gyllid ysgolion, fel un o feysydd blaenoriaeth y Cyngor, ac yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru. Heriodd Aelodau'r Cyngor bob un o'r cynigion arbed fesul gwasanaeth yn rhan o gyd-gyfarfod o'i holl bwyllgorau craffu ym mis Tachwedd 2014, cyn cymeradwyo'r cynigion hynny'n ffurfiol yng nghyfarfod llawn y Cyngor ym mis Mawrth 2015.

74 Gweithredodd y Cyngor broses well er mwyn pennu ei gynllun busnes ar gyfer 2016-17 a'r blynyddoedd canlynol. Ym mis Gorffennaf 2015, cytunodd y Cabinet ar ganllawiau'r gyllideb gorfforaethol, gan ofyn i'r holl feysydd gwasanaeth ddatblygu cynigion arbed a lliniaru yn seiliedig ar senarios o hyd at 10 y cant o ostyngiadau cyllidebol bob blwyddyn am y cyfnod 2016-17 i 2017-18. Roedd Gofal Cymdeithasol yn eithriad i hyn, lle bu'n rhaid arbed dau y cant dros yr un cyfnod. Ystyriodd Fforwm Datblygu Polisi'r Cyngor y don gyntaf o gynigion arbed ar gyfer y ddwy flynedd o 2016-17 i 2017-18 ym mis Tachwedd 2015. Mewn cyd-gyfarfod o holl bwyllgorau craffu'r Cyngor, ar ffurf gweithdy wedi'i hwyluso, trafodwyd y cynigion arbed ar gyfer 2016-17 a 2017-18 ar 18 Tachwedd 2015. Roedd y gweithdy hwnnw ar agor i'r wasg a'r cyhoedd. Yng nghyd-gyfarfod holl bwyllgorau craffu'r Cyngor, cafodd yr aelodau ac aelodau cyfetholedig y cyfle i adolygu'r cynigion arbed ar gyfer 2016-17 i 2017-18. Cynhaliodd y Cyngor gyd-gyfarfod pellach o'i bwyllgorau craffu ar 30 Tachwedd, a chyflwynodd Aelodau craffu argymhellion i'w hystyried gan y Cabinet yn rhan o gyllideb 2016-17, a CATC y Cyngor ar gyfer 2016-17 i 2020-2021.

3 Cyfarfod anffurfiol o Gabinet a Thîm Arweinyddol y Cyngor i hysbysu'r aelodau am faterion strategol sydd yn dod i'r amlwg. Ni wneir unrhyw benderfyniadau yn y cyfarfod hwn.

75 Bu’r Cabinet yn diwygio’r targedau o ran arbedion meysydd gwasanaeth ar gyfer 2016-17 a 2017-18 yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 2015. Penderfynodd y Cabinet ddiwygio targedau meysydd gwasanaeth gan fod sefyllfa’r setliad ariannol oddi wrth Lywodraeth Cymru wedi gwella, ac yn sgil cytuno ar gyfres o gynigion arbed corfforaethol. Mae’r cynigion corfforaethol hyn yn cynnwys arbedion sydd yn deillio o adolygiad Gwasanaethau Gweinyddol a Busnes y Cyngor, a’r rhai sydd yn deillio o’i bolisi Darpariaeth Refeniw Isafswm. Pennodd y Cabinet y targedau arbed newydd ar gyfer 2016-17 yn ddau y cant ar gyfer meysydd gwasanaeth Cymdogaeth sydd yn cefnogi blaenoriaeth CC3 o sicrhau ‘Torfaen glân a gwyrdd’, a 3.5 y cant ar gyfer yr holl feysydd gwasanaeth eraill, ar wahân i Ofal Cymdeithasol, lle cadwyd lefel yr arbedion ar ddau y cant. Ar gyfer 2017-18, cytunodd y Cabinet hefyd ar darged arbedion o 4.5 y cant ar gyfer yr un meysydd gwasanaeth. Roedd meysydd gwasanaeth eisoes wedi llunio cynigion arbed a oedd yn uwch na’r targedau diwygiedig, felly yn sgil targedau arbed is y Cabinet bu modd i’r Cyngor ddyrannu mwy o adnoddau i’r meysydd â blaenoriaeth a nodwyd yn CC3.

76 Cymeradwyodd y Cyngor ei gynlluniau arbed ar gyfer 2016-17 (£5.5 miliwn) a 2017-18 (£4.3 miliwn) yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth 2016. Gan fod y Cyngor wedi datblygu cynllun arbedion manwl dros gyfnod o ddwy flynedd, bu modd i’r Aelodau nodi’r goblygiadau o ran cost a’r cyfleoedd i wireddu arbedion posibl drwy fentrau tymor hwy.

77 Wrth gynnal ein Hasesiad Corfforaethol ym mis Mawrth 2016, roedd y Cyngor yn cynnal adolygiad gweithredu manwl yn sail ar gyfer ei drefniadau cynllunio ariannol. Nod adolygiad gweithredu’r Cyngor, a gefnogwyd i ddechrau gan PricewaterhouseCoopers, yw asesu ei wasanaethau cymorth gweinyddol. Ym mis Mai 2016, roedd yr adolygiad gweithredu yn mynd rhagddo, ac wedi arwain at gael hyd i’r arbedion gofynnol o £1 miliwn yn 2016-17. Mae’r Cyngor yn bwriadu cynnal nifer o ffrydiau gwaith eraill er mwyn cyflawni arbedion effeithloni a gostyngiadau cost eraill ar ôl cwblhau ei adolygiad gweithredu.

78 Mae’r Cyngor wedi mireinio, diweddaru ac ehangu ei CATC i gynnwys cyfnod o bum mlynedd o 2016-17 i 2020-21, er mwyn sicrhau cysondeb rhyngddo â CC3. Yn ôl CATC y Cyngor, mae angen sicrhau £12.68 miliwn o arbedion ychwanegol rhwng 2018-19 a 2020-21. Mewn adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adnoddau), yn rhoi’r diweddaraf am y CATC, i’r Cabinet ar 9 Chwefror 2016, nodwyd bod y Cyngor yn bwriadu ailarchwilio’r pwysau ar wasanaethau a’r targedau o ran arbedion a nodwyd yn flaenorol, ond na chawsant eu gweithredu o ymarfer cynllun arbed 2016-17 a 2017-18 i’w helpu i ymdrin â’r diffyg hwn yn y dyfodol. I ategu hyn, bydd targedau arbed newydd pellach yn cael eu nodi, yn deillio o’r cynigion a nodwyd yng nghynllun busnes newydd y Cyngor ar gyfer 2017-18, lle bydd y Cyngor yn nodi’r gwasanaethau hynny y mae’n bwriadu eu lleihau neu roi terfyn arnynt mewn rhai meysydd nad oes iddynt flaenoriaeth. Mae’r Cyngor wedi trefnu cyd-gyfarfod o’i holl bwyllgorau craffu i adolygu cynigion 2018-19 i 2020-21 yn nhymor yr hydref 2016.

79 Diweddarodd ac ailgyhoeddodd y Cyngor ei strategaeth gaffael hefyd yn fuan yn 2016. Er bod y strategaeth hon yn nodi arbedion effeithlonni ariannol pellach posibl drwy gaffael, nid yw’n nodi targedau arbed penodol ar gyfer hyn, ac mae cynlluniau gweithredu manwl yn dal heb eu datblygu.

## Mae cynllun gweithlu’r Cyngor yn darparu fframwaith iddo reoli a rhoi ei gyflogeion ar waith, ond nid oes digon o fanylion ynddo i fod yn gwbl effeithiol ar hyn o bryd

80 Cytunwyd ar gynllun gweithlu’r Cyngor yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Chwefror 2016 ac yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2016. Dyma’r fframwaith a ddefnyddir i weithredu a datblygu gweithgareddau seiliedig ar staff o fewn y Cyngor.

81 Yn ei gynllun ar gyfer y gweithlu, mae’r Cyngor yn cydnabod bod angen i’w weithlu fod yn hyblyg ac yn barod i addasu, ond ar adeg ein hadolygiad, nid oedd sicrwydd ynghylch sut y byddai hynny’n cael ei gyflawni. Mae’r Cyngor yn cydnabod nad yw eto’n gwybod sut weithlu a ddylai fod ganddo yn 2018. Fodd bynnag, mae’r Cyngor yn ymwybodol y dylai allu pennu’r lefelau optimwm o staff sydd eu hangen i gyflenwi gwasanaethau yn y dyfodol, a chefnogi cyflawni ei CATC yn y dyfodol, drwy gynllunio’r gweithlu’n effeithiol.

82 Mae’r Cyngor wedi dechrau’r broses o nodi’r sgiliau, yr ymddygiad a’r gallu y mae arno eu hangen o fewn ei weithlu er mwyn cyflawni ei amcanion strategol a’i heriau ariannol. Mae ei gynllun ar gyfer y gweithlu, a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Chwefror 2016, yn cynnwys dadansoddiad lefel uchel o weithlu cyfredol y Cyngor, ond nid yw’n cynnwys digon o fanylion penodol am y cyflenwad a’r galw.

83 Mae cynllun gweithlu’r Cyngor yn cynnwys camau gweithredu y mae angen mynd i’r afael â hwy yn y cyfnod 2015-2018, gan gynnwys datblygu cynlluniau gweithlu ym mhob prif faes gwasanaeth. Mae angen y cynlluniau gweithlu gwasanaeth er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o faterion y weithlu, a bod camau effeithiol a phriodol yn cael eu cymryd, a ddylai gael eu hintegreiddio yn y cynlluniau gwasanaeth. Bydd y cynlluniau hyn ar gyfer y gweithlu hefyd yn galluogi’r Cyngor i fod yn gliriach ynghylch nodweddion ei weithlu yn y dyfodol, fel bo modd cymryd camau priodol.

84 Mae’r Cyngor yn datblygu ac yn gwella’r hyfforddiant sydd ar gael ganddo i’r staff, ac yn ystyried datblygu dull mwy strwythuredig er mwyn darparu dewislen fwy cynhwysfawr o gyfleoedd hyfforddi a dysgu.

85 Mae'r cyngor wedi cyflwyno system arfarnu perfformiad staff ar-lein, Worksmart. Ers cyflwyno'r system ar-lein hon yn 2015, dywedodd swyddogion wrthym fod y system wedi gwella gallu'r Cyngor i fonitro a sicrhau cydymffurfio â'i brosesau arfarnu staff. Ers cyflwyno system Worksmart, gellir bellach monitro cyfraddau cwblhau arfarniadau perfformiad a mynd ar drywydd yr arfarniadau hynny â swyddogion yn rheolaidd. 53.93 y cant oedd y gyfradd gwblhau gyffredinol ym mis Rhagfyr 2015, er bod dros ddeuparth o feysydd gwasanaeth y Cyngor yn dangos cyfradd gwblhau a oedd yn uwch na 70 y cant. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod lle i godi'r ffigurau hyn eto, ond bod y trefniadau ar gyfer casglu a monitro wedi gwella.

86 Mae'r Cyngor yn cynnal arolwg staff blynyddol. Yn 2015, cafwyd cyfradd ymateb o 36 y cant i'r arolwg, sef cynnydd o chwech y cant o gymharu â'r flwyddyn gynt. Cefnogai'r arolwg y farn fod Torfaen yn Gyngor y mae cyflogeion eisiau gweithio ynddo, a bod y staff yn gadarnhaol eu barn ynghylch y trefniadau cyffredinol ar gyfer arwain, rheoli a chyfathrebu ar draws y Cyngor. Dangosai'r arolwg hefyd y farn fod rheolwyr yn gwerthfawrogi safbwyntiau eu staff.

87 Fodd bynnag, ers yr arolwg blaenorol yn 2014, teimlai'r staff fod llai o gamau wedi'u cymryd i ymdrin â'r materion yr oeddent wedi'u codi, ac roeddent yn llai hyderus y byddai unrhyw gamau'n cael eu cymryd yn sgil canlyniadau'r arolwg. Er enghraifft:

a Teimlai 80 y cant o'r staff eu bod o dan fwy o bwysau gwaith o gymharu â'r 12 mis diwethaf - cynnydd bach o un y cant o gymharu â'r flwyddyn gynt.

b Teimlai 62 y cant fod y Cyngor yn ymgynghori â hwy ar newidiadau, ond roedd hyn saith y cant yn is na'r flwyddyn gynt.

| Cynigion ar gyfer gwella |
| --- |
| **Y Defnydd o Adnoddau – Pobl**<br>C4 Dylai'r Cyngor:<br>• sicrhau bod cynlluniau manwl yn cael eu datblygu ar gyfer y gweithlu yn unol â'i strategaeth ar gyfer y gweithlu, a bod y cynlluniau hynny wedi'u hintegreiddio mewn cynlluniau gwasanaeth; a<br>• datblygu mecanweithiau i ddangos ei fod yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr arolwg staff diweddaraf. |

## Mae'r Cyngor wedi diweddaru ei gynllun rheoli asedau strategol, ond mae'r ffaith nad yw'r trefniadau rheoli perfformiad wedi'u datblygu'n ddigonol, a natur dameidiog systemau data asedau yn cyfyngu arno ar hyn o bryd

88 Mae'r Cyngor wedi pennu gweledigaeth ar gyfer ei bortffolio o asedau eiddo, a'r canlyniadau allweddol a ddisgwylir ganddo yn sgil gwneud defnydd gwell o'i asedau erbyn 2019. Cymeradwyodd y Cabinet Gynllun Rheoli Asedau Strategol newydd ym mis Chwefror 2016, ac fe gymeradwyodd y Cynllun gan y Cyngor Llawn yn ddiweddarach ym mis Mawrth 2016. Cyn hyn, nid oedd Cynllun Rheoli Asedau Strategol y Cyngor wedi cael ei ddiweddaru ers 2009.

89 Mae'r Cyngor yn gweithredu model landlord corfforaethol i reoli a chynnal ei asedau eiddo os yw'r asedau hynny'n eiddo corfforaethol, yn hytrach nag eiddo unrhyw faes gwasanaeth penodol. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Strategol yn nodi bod model gweithredu'r Cyngor yn canolbwyntio ar bedwar lleoliad cyngor allweddol (Y Ganolfan Ddinesig, Gorsaf Heddlu Pont-y-pŵl, Pearl House, a Thŷ Blaen) i gyflawni gweithgareddau cefnogi gwasanaethau'r Cyngor, ac mae 48 o safleoedd eraill wedi'u rhestru fel safleoedd sydd yn cyflenwi gwasanaethau'n uniongyrchol. Oddeutu £1.7 miliwn yw cyfanswm cost gweithredu blynyddol y safleoedd hyn. Mae gan y Cyngor asesiad clir o'i bortffolio cyfredol o asedau, ac mae'n nodi manylion ei 93 o asedau gweithredol, ei 307 o fuddsoddiadau eiddo a mathau eraill o eiddo, a'i 11 eiddo ar brydles.

90 Yng Nghynllun Rheoli Asedau Strategol y Cyngor, nodir dull cyffredinol y Cyngor o reoli asedau eiddo, nad yw wedi newid rhyw lawer ers ei gynllun rheoli asedau blaenorol. Nid yw'n glir a yw'r Cyngor wedi ystyried sut, a pham, y mae'r tirlun corfforaethol wedi newid o ran rheoli asedau eiddo ers 2009. Nid yw Cynllun Rheoli Asedau Strategol y Cyngor yn rhoi ystyriaeth glir o'r asedau y disgwylir y bydd eu hangen er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau strategol ar gyfer y dyfodol. Ar hyn o bryd, nid yw ei Gynllun Rheoli Asedau Strategol yn ystyried effaith bosibl unrhyw ostyngiadau yng ngweithlu'r Cyngor yn y dyfodol, na'r defnydd a wneir o ofod yn sgil canlyniadau'r adolygiad sydd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd o'r Gwasanaethau Gweinyddol a Busnes.

91 Mae Cynllun Rheoli Asedau Strategol y Cyngor yn amlinellu ymagwedd y Cyngor at drosglwyddo asedau cymunedol. Ystyrir ased yn ased i'w drosglwyddo os yw'n bodloni'r meini prawf manwl canlynol:

a eiddo nad oes ei angen mwyach ar gyfer anghenion gweithredol, ac a ystyrir yn amhriodol i'w werthu ar y farchnad; ac

b asedau gwasanaeth gweithredol lle bydd y sefydliad sydd â diddordeb mewn trosglwyddo'r ased yn parhau i gyflenwi'r gwasanaeth, a hynny at yr un safon o leiaf, ac/neu ei wella drwy gynnig gwasanaethau cydweddol ychwanegol.

92 Mae'r Cyngor wedi sefydlu grŵp swyddogion Rheoli Asedau i oruchwylio a monitro cyflawni'r Cynllun Rheoli Asedau Strategol yn y dyfodol. Bydd Prif Weithredwr Cynorthwyol y Cyngor - Adnoddau yn cadeirio'r grŵp hwn o swyddogion. Ar adeg ein Hasesiad Corfforaethol ym mis Mawrth 2016, nid oedd cyfarfod cyntaf y grŵp hwn o swyddogion wedi'i gynnal eto, ac nid oedd cylch gorchwyl a rôl y grŵp wedi'u diffinio'n ffurfiol.

93 Ers 2011-12, mae'r Cyngor wedi gostwng ei ofod swyddfa yn rhan o brosiect rhesymoli asedau. Drwy weithredu Strategaeth Gweithleoedd Amgen a mabwysiadu cymhareb desg/staff o 7:10, mae'r gofod swyddfa a defnyddir wedi gostwng o 17,500m2 i 10,600m2. Mae'r Cyngor wedi cyflawni hyn drwy wagio hen Neuadd y Sir, ac ailfodelu ei ddefnydd o ofod swyddfa'r ganolfan ddinesig. O gymharu â lefelau 2011-12, mae'r Cyngor wedi sicrhau cyfanswm arbedion net o oddeutu £250,000 y flwyddyn.

94 Mae'r Cyngor hefyd wedi chwilio am gyfleoedd i gydweithio â phartneriaid eraill o'r sector cyhoeddus drwy rannu'r defnydd o'i asedau. Mae ganddo enghreifftiau amrywiol o leoliadau a ddefnyddir ar y cyd ar draws ei bortffolio. Er enghraifft; lleoli llyfrgell Blaenafon yng Nghanolfan Dreftadaeth y Byd, a lleoli ei thîm gofal cwsmeriaid yn llyfrgell Cwmbrân.

95 Mae'r Cyngor yn berchen ar 293 o safleoedd masnachol, a gynhyrchodd incwm gros o £1.8 miliwn yn 2014-15. Mae lefelau meddiannu ei stad fasnachol yn perfformio'n well na chymaryddion y farchnad, gyda lefelau meddiannu o oddeutu 90 y cant yn cael eu sicrhau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn profi heriau parhaus yn gysylltiedig â chyflwr ei bortffolio buddsoddiadau, gan fod y portffolio hwnnw wedi dirywio dros amser oherwydd diffyg buddsoddi yn ôl blaenoriaeth. Yn y Cynllun Rheoli Asedau Strategol, cyfeirir at incwm y Cyngor o eiddo masnachol fel ffynhonnell bwysig ar gyfer cyllideb ariannol y Cyngor. Fodd bynnag, gallai diffyg buddsoddi amharu ar allu'r Cyngor i sicrhau cymaint o enillion ag sy'n bosibl o'i bortffolio yn y dyfodol.

96 Nid yw trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor ar gyfer asedau tir ac eiddo wedi'u datblygu'n ddigonol, o bell ffordd. Delir gwybodaeth am asedau eiddo'r Cyngor ar gronfeydd data gwybodaeth amrywiol ar draws y Cyngor, yn hytrach na bod yr wybodaeth honno'n cael ei chadw mewn system gyfun. Mae hyn y cyfyngu ar y cyfle i swyddogion ac Aelodau herio a chymharu perfformiad asedau unigol, neu wneud penderfyniadau deallus ynghylch asedau unigol. Mae'r Cyngor yn cydnabod y broblem ac wedi dweud wrthym fod hyn yn faes allweddol i'w ystyried yn y dyfodol, ond mae'n dal heb ddatblygu cynlluniau i ystyried sut y gallai gyfuno ei wybodaeth asedau. Fel mater o drefn, mae'r Cyngor yn monitro ei ddefnydd o ynni ac effeithlonrwydd ei bortffolio o asedau eiddo, ac mae ei Strategaeth Ynni Gorfforaethol yn nodi ei ddull o leihau'r defnydd o ynni, a'i ôl troed carbon, yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru.

97 Mae gan y Cyngor raglen o arolygiadau i asesu cyflwr asedau eiddo. Gan fod cyllideb y Cyngor yn brin, cynhelir arfarniadau cyflwr seiliedig ar risg bob blwyddyn i ganfod pa asedau y mae angen rhoi'r flaenoriaeth iddynt er mwyn ymdrin ag ystyriaethau dyletswydd gofal. Amcangyfrifwyd mai cyfanswm ôl-groniad atebolrwydd atgyweirio y Cyngor oedd £29.2 miliwn ar 31 Mawrth 2015.

| Cynigion ar gyfer gwella |
| --- |
| **Y Defnydd o Adnoddau – Asedau:**<br>C5 Dylai'r Cyngor:<br>• gyfuno ei wybodaeth am weithrediad a pherfformiad ei asedau i'w alluogi i atgyfnerthu ei drefniadau rheoli perfformiad; a<br>• sicrhau bod y Cynllun Rheoli Asedau Strategol yn cyfleu gofynion y Cyngor yn glir ar gyfer y dyfodol o ran asedau, er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau strategol. |

## Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o dechnoleg ddigidol ac mae ganddo strategaeth gomisiynu glir ar gyfer TG sydd yn cyflenwi gwasanaethau effeithiol o'r Gwasanaeth Rhannu Adnoddau (GRhA)

98 Yn Strategaeth Partneriaeth y GRhA, nodir cyfeiriad strategol y GRhA ar gyfer y cyfnod 2016-2020. Fe'i lluniwyd drwy gynnal cyfres o sesiynau ymgysylltu â'r Aelodau, sefydliadau partner, a Darparwyr TG y sector preifat. Gwnaeth y Cyngor gyfraniad allweddol tuag at ddatblygu Strategaeth y GRhA.

99 Mae Strategaeth Partneriaeth y GRhA yn nodi bwriad y GRhA, sef cyflenwi seilwaith TG dibynadwy i Dorfaen; datblygu gweithlu galluog a phroffesiynol i gefnogi'r seilwaith hwn; canfod cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau ar y cyd ar draws partneriaid; ac, yn benodol, defnyddio TG i gefnogi'r broses o gyflawni CC3 y Cyngor.

100 Mae gan y Cyngor gynllun comisiynu tair blynedd sydd yn nodi ei ofynion o ran y GRhA. Caiff y cynllun hwn ei ddiweddaru'n flynyddol, a bydd Bwrdd Cyhoeddus y GRhA, sydd yn goruchwylio gweithrediad y GRhA yn cytuno arno. Ysgogir y cynllun comisiynu gan anghenion y Cyngor, ac mae'n nodi'r hyn sydd ei angen arno gan y GRhA i'w gynorthwyo dros y tair blynedd nesaf i gyflawni ei flaenoriaethau strategol a gwireddu ei ddyheadau ehangach. Yn ogystal â'r gofyniad yn y cynllun comisiynu i gynnal lefelau cyfredol o wasanaeth, torri costau a symud tuag at lwyfannau a systemau cyffredin, mae'r GRhA hefyd wedi cael y dasg o gefnogi gweithrediad 'technolegau galluogi'.

101 Mae'r GRhA wedi cymryd rhan mewn ymarfer meincnodi gyda'r Gymdeithas Arweinwyr TG (SOCITM) i gymharu ei berfformiad â grŵp o gyrff cyhoeddus a chyrff preifat. Dangosai'r gwaith meincnodi fod y GRhA yn cymharu'n ffafriol â darparwyr eraill y sector cyhoeddus a'r sector preifat o ran amseroedd ymateb y gwasanaeth. Mae'r GRhA yn paratoi adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i Fwrdd Cyhoeddus y GRhA, sydd yn nodi sut y mae wedi sicrhau gwerth da am arian i bartneriaid, a sut mae'n perfformio yn erbyn pob un o'i ganlyniadau dangosydd gwasanaeth allweddol. Mae nifer o bartneriaid newydd wedi mynegi diddordeb mewn ymuno â'r gwasanaeth yn ystod 2016.

102 Mae'r Cyngor yn chwilio am ddulliau mwy arloesol o ddefnyddio technoleg er mwyn sicrhau gwelliannau, ac wedi sefydlu cynlluniau arloesol drwy ddatblygu strategaeth ddigidol newydd. Mae'r strategaeth hon yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu trawsnewid ei bobl, ei ddiwylliant, ei dechnoleg a'i brosesau er mwyn datblygu i fod yn gyngor digidol. Mae rhaglen drawsnewid ddigidol hefyd wedi'i chynnwys yn y strategaeth ddigidol sydd yn nodi'r gweithgareddau a gyflawnwyd drwy gydol 2015, a'r rhai a gyflawnir yn 2016 a 2017.

103 Nid oedd y strategaeth ddigidol wedi'i chytuno'n ffurfiol ar adeg ein hadolygiad, ond roedd wedi cael ei chyflwyno i'r Tîm Arwain ym mis Mawrth 2016, ac mae'r strategaeth wedi'i halinio â CC3. Mae'r Cyngor hefyd wedi creu swydd rheolwr digidol newydd, sydd yn adrodd yn uniongyrchol wrth y Pennaeth Gwasanaethau Strategol a Democrataidd, i oruchwylio a rheoli cyflawniad gweithredol ei strategaeth ddigidol.

104 Er nad oes strategaeth TGCh gyffredinol sydd yn nodi gweledigaeth ac ymagwedd strategol y Cyngor, mae strategaeth y GRhA, ei gynllun comisiynu a'r strategaeth ddigidol yn ateb y diben hwnnw gyda'i gilydd. Dylai'r Cyngor ystyried a oes gwerth mewn datblygu crynodeb cyffredinol sydd yn dod â'r tair dogfen ar wahân ynghyd i greu ymagwedd glir a chyfannol at y defnydd o TG a thechnoleg ddigidol ar draws y Cyngor.

105 Bu'r Cyngor yn ymgynghori â grwpiau dinasyddion wrth ddatblygu cymhwysiad (ap) newydd y Cyngor ar gyfer ffonau symudol. Drwy'r ap hwn, gellir cyrchu mwy o wasanaethau a gwneud mwy o ymholiadau drwy sianelau digidol symudol. Gall dinasyddion hefyd roi adborth amser real o'u profiadau yn uniongyrchol drwy'r ap. Mae'r nifer sy'n manteisio ar wasanaeth ap y Cyngor wedi bod yn cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, mae nifer y galwadau i'w ganolfan cyswllt cwsmeriaid yn cynyddu'n sylweddol. Wrth gynnal ein Hasesiad Corfforaethol ym mis Mawrth 2016, roedd y Cyngor yn cynnal dadansoddiad o'r achosion gwraidd er mwyn canfod y rhesymau dros hyn.

106 Erbyn hyn, mae gan y Cyngor ymagwedd aml-sianel at gyswllt cwsmeriaid. Bydd unrhyw fath o ymholiad, boed hwnnw drwy'r ganolfan alwadau, drwy wasanaethau ap ffôn symudol, Facebook neu unrhyw lwyfan ddigidol arall, yn dod drwy'r un system gofal cwsmeriaid, a bydd cynnydd ac adborth hefyd ar gael ar draws yr holl sianelau.

107 Cynhaliodd y Cyngor arolwg o hyder digidol er mwyn canfod pa mor hyderus oedd y staff wrth ddefnyddio'r sianel gofal cwsmeriaid gyfun yn y gweithle. Dangosai canlyniadau'r arolwg gymysgedd o alluoedd a phrofiad ar draws y gwahanol broffiliau oedran. Mae'r Cyngor eisiau i'r meysydd gwasanaeth arwain technoleg, ac eisiau galluogi ei staff i fod yn hyderus wrth ddefnyddio'r sianel gofal cwsmeriaid cyfun, er mwyn gwella gwasanaethau. Mewn ymateb i'r arolwg, cyflwynodd y Cyngor gyfres o raglenni dylunio gwasanaeth digidol ar sut i ddatblygu cynnwys, hyfforddiant hyrwyddwyr digidol a deall data. Cynhaliwyd gweithdai mewnol mewn ymgyrch, wythnos 'Torfaen ddigidol', ym mis Medi 2015.

108 Mae gan y Cyngor fecanweithiau monitro ar waith fel bo modd asesu effaith cynnydd yn y defnydd o dechnoleg ddigidol o fewn gwasanaethau. Er enghraifft, cyflwynodd y Cyngor fecanwaith i breswylwyr adrodd am ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon drwy ap ffôn symudol y Cyngor. Dengys data'r Cyngor fod 52 y cant o ddefnyddwyr gwasanaeth bellach yn defnyddio'r ap ffôn symudol yn hytrach na chysylltu â'r ganolfan alwadau i adrodd am y digwyddiadau hynny.

109 Mae gwe-ddarllediadau o ystod o gyfarfodydd y Cyngor, gan gynnwys y Cyngor, y Cabinet a'r pwyllgorau craffu wedi cael eu cyflwyno er mwyn galluogi'r cyhoedd i gymryd mwy o ran, ac i ddangos bod y Cyngor yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw. Hysbysir dinasyddion yn rheolaidd am gyfarfodydd y Cyngor a phenderfyniadau allweddol, a hynny drwy ei sianelau ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae uwch swyddogion ac Aelodau wedi dery hyfforddiant ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol. Cefnogir hyn gan gyfres glir o ganllawiau i staff ac Aelodau ar y defnydd hwnnw.

## Mae'r Cyngor ar ganol diweddaru a gwella ei drefniadau rheoli a llywodraethu gwybodaeth, sydd wedi dyddio ar hyn o bryd

110 Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at ddiweddaru nifer o'i strategaethau a'i bolisïau llywodraethu gwybodaeth, yr oedd pob un ohonynt ar ffurf drafft ar adeg ein Hasesiad Corfforaethol ym mis Mawrth 2016. Cyn hynny, nid oedd rhai o'r polisïau TG a llywodraethu gwybodaeth corfforaethol wedi cael eu diweddaru ers 2009, er i rai ohonynt gael eu hadolygu yn 2013.

111 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwneud gwaith ychwanegol i wella ei drefniadau llywodraethu gwybodaeth. Mae'r drafft o Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2016, yn cydnabod y rhaglen waith sydd ei hangen yn y maes hwn, a'r camau allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Fodd bynnag, nid yw'r gwendidau a geir yn y trefniadau ar hyn o bryd wedi'u nodi hyd yma ar gofrestr risg y Cyngor.

112 Mae'r Cyngor wedi penodi Pennaeth Gwasanaeth, ar lefel briodol, fel Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (USRG) y Cyngor, a Swyddog Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth i gefnogi'r USRG.

113 Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Rheoli Gwybodaeth i ddatblygu gweithgareddau'r USRG, ac i fonitro polisïau diwygiedig y Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Yn ogystal â hyn, bydd Grŵp Gweinyddwyr Asedau yn gyfrifol am Gofrestr Asedau Gwybodaeth y Cyngor ac yn cynorthwyo perchnogion asedau gwybodaeth adrannol i fodloni gofynion llywodraethu gwybodaeth.

114 Yn y drafft o Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2015-16 y Cyngor, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2016, ceir y sefyllfa ddiweddaraf o ran y graddau y mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Diogelu Data. Nodir 'Yn 2015-16 hyd at fis Ebrill 2016, cafwyd un achos o fynd yn groes i'r Ddeddf Diogelu Data. Adroddwyd yr achos hwnnw wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) ym mis Mawrth 2016. Ni chymerwyd unrhyw gamau rheoleiddio ffurfiol yn gysylltiedig â'r achos hwn, ond mae'r Cyngor wedi gorfod creu cynllun gwella sydd yn cynnwys mesurau technegol a gweithdrefnol i leihau'r tebygolrwydd o achosion pellach fel hyn. Cafwyd achos arall o fynd yn groes i'r Ddeddf Diogelu Data ym mis Ebrill 2016. Mae'r USRG wedi ymchwilio i'r achos hwn a'i asesu. Mae'r achos dan reolaeth, ac mae'r USRG, oherwydd natur yr achos, wedi penderfynu nad oes angen iddo hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r parti dan sylw wedi cael gwybod am hyn, ac fe gaiff gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os yw'n anfodlon ag ymagwedd y Cyngor.'

| Cynigion ar gyfer gwella | |
| --- | --- |
| **Y Defnydd o Adnoddau – Llywodraethu Gwybodaeth** | |
| C6 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth yn cael eu diweddaru a'u cwblhau cyn gynted â phosib. |

# Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda gyda'i bartneriaid strategol, ond mae rhai trefniadau rheoli perfformiad heb eu datblygu'n ddigonol i arddangos canlyniadau gwell ar draws yr holl bartneriaethau

## Mae'r Cyngor wedi sefydlu fframwaith clir i gefnogi gwaith partneriaeth ac, er bod y trefniadau ar gyfer cydweithio'n gadarn ar y cyfan, ni ellir dangos i ba raddau y sicrhawyd canlyniadau ar draws yr holl bartneriaethau

115 Mae'r Cyngor wedi datblygu a chytuno ar fframwaith cydweithio i werthuso ei bartneriaethau strategol cyn iddynt gael eu sefydlu. Mae'r Cyngor wedi defnyddio ei fframwaith cydweithredu i werthuso partneriaethau presennol er mwyn cael sicrwydd eu bod yn cyflawni eu nodau gwreiddiol ac yn cynnig gwerth am arian i'r Cyngor a'i ddinasyddion. Mae'r Cyngor wedi nodi ei drefniadau partneriaeth presennol, ac ym mha feysydd y mae'n cydweithio ag eraill.

116 Sefydlodd y Cyngor a'i bartneriaid Fwrdd Gwasanaethau Lleol Torfaen (BGLl) ym mis Ebrill 2009, a Grŵp Gweithredol, oedd yn dod ag uwch Aelodau a swyddogion y Cyngor a phartneriaid eraill, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Heddlu Gwent, Cynghrair Gwirfoddol Torfaen a chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru ynghyd. Cefnogir y Grŵp Gweithredol gan Grŵp Tactegol, sy'n cynnwys partneriaid o bob rhan o'r Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys cynrychiolwyr Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, y Gwasanaeth Prawf, a Chynghorau Cymuned.

117 Yng Nghynllun Integredig Sengl y BGLl, Torafen Ynghyd, yn nodi strategaeth y BGLl ar gyfer y cyfnod o ddeng mlynedd rhwng 2013 a 2023. Datblygodd y Cyngor a'r BGLl saith canlyniad cyffredin i weithio tuag atynt dros y tymor canolig i'r tymor hwy, a thair rhaglen allweddol yr oedd angen rhoi blaenoriaeth iddynt yn y tymor byrrach:

a galluogi pobl i reoli effaith diwygio lles;

b galluogi teuluoedd ag anghenion cymhleth i wireddu eu potensial; a

c helpu pobl eiddil i fyw bywydau hapus ac annibynnol.

118 Cytunodd holl bartneriaid y BGLl ar y CIS ac ymrwymo iddo. Fodd bynnag, mae rhai o ganlyniadau'r CIS yn rhai lefel uchel ac yn canolbwyntio mwy ar weithgareddau ac allbynnau yn hytrach na chanlyniadau. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n anodd mesur eu llwyddiant, a bod mwy o ansicrwydd ynghylch yr hyn y mae'r Bwrdd yn anelu i'w gyflawni drwy gydweithio. Mae'r Cyngor yn cydnabod hyn ac wedi bod yn datblygu ffyrdd o ddangos effaith y BGLl, ac a yw wedi cyflawni ei ganlyniadau, er enghraifft, drwy ddefnyddio astudiaethau achos. Er enghraifft, o dan y meysydd 'Mae poblogaeth Torfaen yn iach ac yn mwynhau ansawdd bywyd da', gellir mesur ac adrodd ar fwyafrif y canlyniadau. Fodd bynnag, ar gyfer y maes 'Mae pobl eiddil yn Nhorfaen yn hapus ac yn annibynnol', nodwyd mai ond dau o'r pedwar o ganlyniadau yr oedd modd eu monitro neu adrodd amdanynt.

119 Cynhaliodd y BGLl adolygiad o'r ddogfen Torfaen Ynghyd a'r cynnydd yr oedd wedi'i wneud yn ystod y 18 mis cyntaf o'i gyflawni (Ebrill 2013 - Medi 2014). Lluniodd Adroddiad Cyntaf Torfaen Ynghyd, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015. Roedd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o gynnydd yn erbyn pob un o'r canlyniadau cyffredin. Bydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyhoeddi yn 2016, ac yn trafod y cyfnod o fis Hydref 2014 i fis Mawrth 2016.

120 Mae'r berthynas rhwng holl bartneriaid y BGLl wedi parhau i ddatblygu'n dda. Mae'r BGLl wedi bod yn gyfrwng i'r holl bartneriaid herio'r naill a'r llall mewn ffordd adeiladol, gan gynnal cyd-ddealltwriaeth o rolau ac amcanion perthynol bob partner ar yr un pryd. Fodd bynnag, ni chafodd trefniadau craffu effeithiol gweithgareddau'r BGLl eu rhoi ar waith hyd yn hwyr yn 2015, a hynny drwy drefniadau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor.

121 Fel sy'n ofynnol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae BGLlau wedi cael eu disodli, o 1 Ebrill 2016, gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Y gofyniad statudol yw cael BGC ym mhob ardal awdurdod lleol, fydd yn cynnal asesiad o lesiant ar draws ei ardal, ac yna'n creu cynllun llesiant. Bydd BGC Torfaen yn parhau i gyflawni cynllun Torfaen Ynghyd ac adrodd ar gynnydd yr amcanion yn y cynllun hwnnw hyd fis Mai 2018.

122 Ceir ymrwymiad clir gan holl bartneriaid y BGC i barhau i gydweithio'n effeithiol, ac mae'r ymrwymiad hwn wedi'u adeiladu ar y perthnasoedd cryf a ddatblygwyd drwy'r BGLl. O'n cyfweliadau â detholiad o bartneriaid y BGC, gwelsom eu bod yn hyderus nad oes unrhyw rwystrau diwylliannol sylweddol sydd yn eu hatal rhag cydweithio. Mae presenoldeb partneriaid yng nghyfarfodydd y BGLl yn dda, ond mae'r rhai sy'n cynrychioli'r gwahanol bartneriaid ar y BGC wedi newid. Mae hyn wedi achosi oedi wrth gael y bobl gywir i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd, ac felly wedi amharu ar gyflymder y Bwrdd wrth gyflawni rhai o'i weithgareddau.

123 Mae'r Cyngor wedi arddangos rhai enghreifftiau eraill o waith partneriaeth traws-sector rhanbarthol er mwyn ymdrin ag anghenion cynyddol yn y gymuned. Er enghraifft, mae Rhaglen Eiddilwch Gwent wedi llwyddo i ddod â'r pum cyngor yn rhanbarth Gwent a'r Bwrdd Iechyd Lleol ynghyd i fynd i'r afael ag eiddilwch mewn modd cydgysylltiedig. Mae'r rhaglen wedi creu timau gwaith ac adnoddau cymunedol integredig er mwyn helpu i gyflenwi gwasanaethau sydd yn cefnogi pobl eiddil yn y gymuned mewn modd effeithiol ac effeithlon. Fodd bynnag, yn yr adolygiad dilynol o Raglen Eiddilwch Gwent a gynhaliwyd gennym yn ddiweddar, nodwyd nad oedd wedi rhoi tystiolaeth o ganlyniadau gwell gweladwy, ac nad oedd partneriaid yn gallu dangos yn glir beth oedd cyflawniadau cyffredinol y Rhaglen yn erbyn ei amcanion gwreiddiol. Y mae'r naill agwedd a'r llall yn bwysig wrth i bartneriaid benderfynu ynghylch dyfodol y rhaglen.

## Mae effeithiolrwydd trefniadau rheoli perfformiad ar draws partneriaethau allweddol y Cyngor yn amrywio

124 Nid yw'r trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer CIS y BGLl wedi'u datblygu'n ddigonol, felly nid yw gwaith monitro perfformiad ac adrodd ar gynnydd y cynllun wedi cael ei gyflawni mor aml ag a gynlluniwyd yn wreiddiol. Cafwyd cyfnod o 18 mis (Ebrill 2013 – Medi 2014), pan na chafodd y BGLl adroddiad ar berfformiad, gan nad oedd digon o gefnogaeth ar gael ar gyfer y trefniadau hynny. Amharodd hyn ar allu'r Cyngor i fonitro ac asesu cynnydd, ac i weithredu fel bo'r angen.

125 O dan saith canlyniad cyffredin a rhaglenni â blaenoriaeth y CIS, datblygwyd sawl dangosydd canlyniad er mwyn mesur cynnydd. Cafodd cardiau adrodd manwl eu paratoi ar gyfer pob dangosydd canlyniad er mwyn esbonio'r 'achosion a'r grymoedd' sydd yn effeithio ar Dorfaen, a'r camau sydd angen eu cymryd.

126 Mae'r partneriaid allweddol o'r farn bod canlyniadau i drigolion Torfaen yn gwella, a bod yr adroddiadau cynnydd yn dangos sefyllfa gadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau hyn yn cynnwys crynodeb clir o berfformiad nac yn nodi meysydd allweddol i'w gwella, sydd yn golygu bod yn rhaid i ddinasyddion ddod i'w casgliad eu hunain ynghylch a yw'r canlyniadau wedi'u cyflawni. Mae'r Cyngor wedi gwella ei drefniadau monitro drwy gyflwyno cyfle i graffu a herio yn rhan o drefniadau Trosolwg a chraffu y Cyngor, a thrwy sicrhau bod cynnydd yn cal ei adolygu mewn modd mwy amserol.

127 Yn achos addysg, nododd Estyn fod y blaenoriaethau ar gyfer plant a phobl ifanc wedi'u nodi'n glir yn y CIS. Fodd bynnag, casglodd nad oedd yn glir i ba raddau yr oedd gwerthusiad strategol yn cael ei gynnal o weithrediad y camau a osodwyd yn erbyn y blaenoriaethau hynny, nac ychwaith pa mor dda yr oedd y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc am ddatblygu cynlluniau gwella.

128 Daeth y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc i ben ar ôl i'w weithgareddau gael eu cynnwys yn y CIS. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i ailsefydlu strwythur partneriaeth er mwyn goruchwylio'r broses o gyflawni blaenoriaethau'r BGC ar gyfer plant a phobl ifanc, ac felly wedi sefydlu'r Bwrdd Gwella Plant a Phobl Ifanc (BGPPhI). Mae gan y BGPPhI gylch gorchwyl addas a chlir, ac fe geir fframwaith partneriaeth cytunedig sydd yn cynnwys ystod briodol o ddangosyddion canlyniad ar gyfer pob un o'r saith nod craidd. Mae partneriaid yn gwneud defnydd da o offeryn monitro canlyniad defnyddiol er mwy canfod mannau lle mae'r perfformiad yn is na'r disgwyl, a chynllunio gwelliannau fel bo'r angen.

129 Mae sefydlu'r BGPPhI wedi arwain at ganlyniad cadarnhaol yn sgil cydweithio, gan fod y mesurau arbennig ar gyfer gwasanaethau addysg y Cyngor wedi'u tynnu'n ôl ar ddechrau 2016. Bydd y BGPPhI yn parhau i gyfarfod gan ganolbwyntio ar barhau i wella addysg.

130 Mewn perthynas â threfniadau partneriaeth eraill, ceir tystiolaeth ehangach y gellid gwella trefniadau rheoli perfformiad. Er enghraifft, yn ein hadolygiad dilynol o Raglen Eiddilwch Gwent, casglwyd nad oedd y rhaglen yn gallu dangos cyflawniadau yn erbyn y disgwyliadau a gynlluniwyd gan nad oedd trefniadau rheoli perfformiad digon cadarn ar waith. Roedd rhai partneriaid yn ei chael hi'n anodd datblygu mesurau digonol a fyddai'n galluogi rhanddeiliaid i gasglu a oedd amcanion y Rhaglen yn cael eu cyflawni. Mae'r partneriaid bellach yn datblygu fframwaith canlyniadau mwy cadarn, gan ragweld y bydd y Rhaglen yn parhau, ac ar sail yr angen i ddangos casgliadau yn sgil buddsoddi pellach.

| Cynigion ar gyfer gwella |
| --- |
| **Gweithio mewn Partneriaeth:**<br>C7 Dylai'r Cyngor:<br>• sicrhau ei fod yn cynorthwyo'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu mesurau canlyniad clir ac adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i alluogi'r Bwrdd a'r Cyngor i ddangos bod canlyniadau'n gwella; a<br>• sicrhau bod trefniadau rheoli ac adrodd ar berfformiad ar draws prif bartneriaethau'r Cyngor, gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn: glir a chyson; dangos a yw'r canlyniadau a fwriadwyd yn cael eu sicrhau; dangos elw ar fuddsoddiad; ac yn golygu bod modd dwyn partneriaid i gyfrif ar sail perfformiad lle bo'n briodol, gan gynnwys drwy drefniadau craffu. |

# Mae'r Cyngor yn arddangos gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i brif wasanaethau a'i waith cynllunio gwelliannau, ac mae'n parhau i atgyfnerthu ac ymwreiddio ei drefniadau rheoli perfformiad

## Mae'r Cyngor yn parhau i atgyfnerthu ei drefniadau cynllunio gwelliant, ac mae her effeithiol o du'r Aelodau yn cefnogi hyn

131 Mae gan y Cyngor ymagwedd glir at gynllunio gwasanaethau. Y mae wedi darparu canllawiau cynllunio gwasanaeth clir er mwyn disgrifio'r cysylltiadau rhwng y CIS, y Cynllun Corfforaethol, cynlluniau gwasanaeth, cynlluniau tîm a chynlluniau perfformiad unigol. Mae'r Cyngor wedi darparu templed clir i'r holl feysydd gwasanaeth ddatblygu eu cynlluniau gwasanaeth cyfredol, gan gynnwys manylion gweithgareddau, allbynnau, graddfeydd amser a ffynonellau cyllid. Mae'r cynlluniau gwasanaeth cyfredol hefyd yn nodi dulliau o fesur llwyddiant ar gyfer yr holl gamau gweithredu lefel uchel, a ddefnyddir gan y Cyngor i fesur effaith gweithgareddau a gynllunnir gan y gwasanaeth ar ddinasyddion.

132 Bydd trefniadau cynllunio gwasanaeth presennol y Cyngor yn gweithredu fel cyfrwng ar gyfer cyflawni ym mlwyddyn gyntaf y CC3, nes bo cynllun busnes manwl y Cyngor cyfan wedi'i gytuno. Mae'r Cyngor yn bwriadu diweddaru ei gynlluniau gwasanaeth i adlewyrchu'r CC3 newydd a'r cynllun busnes cysylltiedig ar gyfer y Cyngor cyfan yn ystod 2016-17, yn barod i'w gweithredu'n ddiweddarach yn y flwyddyn. Bydd angen i'r Cyngor adolygu ei drefniadau cynllunio gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben er mwyn cyflawni'r CC3 a'r cynllun busnes newydd.

133 Yn 2015, ni lwyddodd y Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Mesur Llywodraeth Leol, gan na chyhoeddodd ei Gynllun Gwella ar gyfer 2015-16 o fewn terfyn amser rhesymol ar ôl i'r flwyddyn ariannol yr oedd yn berthnasol iddi ddechrau. Aethpwyd i'r afael â hyn ar gyfer 2016, gan gytuno ar Gynllun Gwella 2016-17 y Cyngor yng nghyfarfod ei Gabinet ym mis Ebrill 2016, a'i gyhoeddi'n ddiweddarach y mis hwnnw. Mae Cynllun Gwella diweddaraf y Cyngor yn gyson â blaenoriaethau newydd CC3.

134 Mae'r Cyngor wedi gweithio'n dda gyda'i Aelodau i atgyfnerthu eu rôl drwy berchnogi ac arwain gwelliannau i wasanaethau. Cynhaliwyd cyd-gyfarfod o bwyllgorau trosolwg a chraffu'r Cyngor ym mis Chwefror 2016 er mwyn herio gweithgareddau a mesurau cynlluniau gwasanaeth, a'u hargymell i Brif Swyddogion Gwasanaethau ar draws yr holl feysydd gwasanaeth. Wrth arsylwi'r cyfarfod hwn, gwelsom dystiolaeth dda o herio gan yr aelodau ar draws y pleidiau, a nodwyd sawl argymhelliad er mwyn gwella mesurau cynlluniau gwasanaeth y Cyngor ar gyfer 2016-17. Deallwn fod y Cyngor yn bwriadu parhau i gynnal y broses hon o ymgysylltu â'r aelodau a rhoi cyfle iddynt herio ar sail flynyddol.

135 Yn ein hadroddiad mwyaf diweddar ar yr archwiliad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016, casglwyd bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8), a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i raddau digonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at y ffaith bod gosod targedau yn parhau i fod yn faes i'w wella o fewn y Cyngor. Dylai'r Cyngor sicrhau bod targedau'n cael eu datblygu ar gyfer ei holl fesurau perfformiad, a bod y targedau hynny'n ddigon uchelgeisiol, ond eto'n realistig.

136 Cafodd gweithgareddau a mesurau cynlluniau gwasanaeth y Cyngor, a'r targedau ar gyfer y mesurau hynny, eu herio'n gadarn gan yr Aelodau yn ei gyfarfod o'r holl bwyllgorau craffu ym mis Mawrth 2016. Arweiniodd hyn at ddiwygio targedau a gofnodwyd gan Brif Swyddogion Gwasanaeth yn eu cynlluniau gwasanaeth ar gyfer 2016-17, ac mae'r Cyngor bellach wedi sicrhau bod targedau priodol yn cael eu gosod ar gyfer unrhyw fesurau sydd yn seiliedig ar alw mewn meysydd gwasanaeth.

137 Yn ystod ein hasesiad o waith ar berfformiad, a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Ionawr 2016, cyfeiriwyd hefyd at y ffaith y dylai'r Cyngor ystyried sut mae'n diffinio amcan gwella cwbl lwyddiannus yn ei Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad, a sut mae'r Cyngor yn cyfleu ei berfformiad yn erbyn targedau a osodwyd. Canfuom fod y Cyngor yn diffinio amcan gwella fel amcan cwbl lwyddiannus os yw wedi cyflawni 75 y cant o'r mesurau a adroddwyd yn erbyn y targedau. Daethom i'r casgliad ei bod hi'n anodd deall sut y gellir cyfiawnhau'r farn fod cyflawni llai na 100 y cant o'r mesurau a adroddwyd yn gyfystyr â bod yn gwbl lwyddiannus.

138 Yn Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar Berfformiad 2014-15, diffiniwyd hefyd bod amcan gwella yn rhannol lwyddiannus os oedd 50 y cant o'r targedau a adroddwyd wedi'u cyflawni, a bod unrhyw amcan gwella lle'r oedd llai na 50 y cant o'r targedau wedi'u cyflawni yn aflwyddiannus. Fodd bynnag, roedd y data a adroddwyd ar dudalen 31 yn Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar Berfformiad yn anghyson â diffiniad y Cyngor ynghylch a oedd targed yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus. pedwar oedd yn rhannol lwyddiannus a phump oedd yn aflwyddiannus.

139 Mae'r Cyngor wedi cydnabod y gwendidau yn ei Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad 2014-15, ac yn diwygio ei ymagwedd ar gyfer Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad 2015-16.

## Mae'r Cyngor yn parhau i wella ei drefniadau rheoli perfformiad mewnol

140 Mae prosesau rheoli perfformiad y Cyngor bellach yn fwy cadarn ac wedi'u halinio'n well ar lefel gorfforaethol, gwasanaethau, timau ac aelodau unigol o staff. Mae gwaith i ymwreiddio sesiynau adolygu perfformiad unigol ac asesu perfformiad corfforaethol yn strwythur llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn mynd rhagddo'n dda. Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer adolygiadau perfformiad unigol yn sicrhau bod gan bob aelod o staff ddealltwriaeth well o'i rôl a'i gyfrifoldebau yng nghyswllt blaenoriaethau'r Cyngor, drwy sicrhau bod eu hamcanion yn gysylltiedig â blaenoriaethau cynlluniau gwasanaeth a blaenoriaethau corfforaethol. Fodd bynnag, er bod trefniadau i gwblhau adolygiadau Worksmart y staff yn datblygu, ceir lle i wella o hyd.

141 Mae diwylliant rheoli perfformiad y Cyngor wedi newid ers i Estyn orfodi mesurau arbennig ar ei wasanaeth addysg yn 2013. Mae'r Cyngor wedi dysgu yn sgil y profiad hwn, ac yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cyfrifoldeb, perchnogaeth ac atebolrwydd corfforaethol wrth reoli ei berfformiad, yn hytrach na sicrhau hynny o fewn meysydd gwasanaeth unigol yn unig. Mae'r Cyngor yn ymfalchïo yn y ffaith mai sefydliad sy'n dysgu ydyw, a'i fod yn fwy parod i dderbyn asesiad a her, a'i fod yn fwy realistig a hunanymwybodol ynghylch y modd y mae'n perfformio, a'r hyn sydd angen ei wella. Nodai ein hadolygiad fod diwylliant sefydliad sy'n dysgu wedi'i ymwreiddio drwy'r holl Gyngor.

142 Cynhelir sesiynau perfformiad corfforaethol y Cyngor bob chwarter. Maent yn rhoi cyfle i Aelodau Cabinet ofyn cwestiynau i swyddogion a deiliaid Portffolio Gweithredol atebol mewn modd adeiladol, a'u herio i gyfiawnhau achosion o danberfformio a chanfod risgiau posibl. Mae'r sesiynau'n arwain at well dealltwriaeth rhwng Aelodau a swyddogion o'r prif faterion y mae'r Cyngor yn eu wynebu, ac yn creu cyd-berchnogaeth ar draws y Cabinet, arweinwyr lefel uwch a swyddogion o'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn mynd i'r afael â meysydd sy'n destun pryder.

143 Yn ein barn ni, mae ansawdd cyfarfodydd asesu perfformiad corfforaethol y Cyngor wedi gwella, ac maent bellach yn canolbwyntio llawr mwy ar y meysydd sydd yn cael eu hadolygu, drwy dargedu meysydd lle mae angen y mwyaf o welliant. Roedd swyddogion ac aelodau hefyd yn rhannu'r farn hon yn ystod y cyfweliadau, ac amlygwyd bod y broses asesu perfformiad corfforaethol bellach yn ddull mwy corfforaethol a thrawsbynciol o adolygu a herio perfformiad, yn hytrach na bod gwasanaethau unigol yn cael eu hadolygu mewn seilo.

144 Heb gyfeirio'n benodol at ganlyniadau addysg, dywedodd Estyn fod y Cyngor wedi gweithio'n dda gyda'i fwrdd adfer er mwyn creu newid sylweddol wrth reoli perfformiad. O ganlyniad i waith ad-drefnu diweddar ar lefel gorfforaethol ac ar lefel gwasanaethau, mae gan y Cyngor well capasiti i reoli gwasanaethau addysg. Mae perthnasoedd â'r ysgolion wedi gwella, ac mae lefel yr ymddiriedaeth bellach yn galluogi her o'r naill gyfeiriad a'r llall.

145 Dywedodd llawer o swyddogion ac Aelodau'r Cyngor fod diwylliant perfformiad y Cyngor wedi gwella'n sylweddol ers i Estyn orfodi mesurau arbennig arno yn 2013. Yn ein cyfweliadau â'r Aelodau a'r swyddogion gwelwyd bod trefniadau hunanwerthuso'r Cyngor wedi gwella, a bod y drefn ar gyfer herio achosion o danberfformio yn fwy cadarn. Roedd yr aelodau a'r swyddogion o'r farn fod mesurau arbennig Estyn wedi bod yn gatalydd ar gyfer newid diwylliannol o fewn y Cyngor, a'u bod wedi cael effaith gadarnhaol ar ei drefniadau rheoli perfformiad o fewn Addysg ac mewn meysydd gwasanaeth eraill.

146 Mae trefniadau ansawdd data'r Cyngor wedi gwella, ac adroddwyd cynnydd da yn erbyn yr argymhelliad statudol a gyhoeddwyd yn 2014, a fynnai y dylai'r Cyngor weithredu yn sgil canfyddiadau adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Ansawdd Data 2013. Mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn cynnal rhaglen reolaidd o adolygiadau ansawdd data ar draws nifer o ddangosyddion perfformiad y Cyngor, ac yn adrodd ei ganfyddiadau wrth Dîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor.

147 Mae system Rheoli Perfformiad y Cyngor, Ffynnon, bellach yn hygyrch i holl Aelodau'r Cyngor, er bod lefel y defnydd ohoni yn amrywio. Er bod dealltwriaeth yr Aelodau'n rhesymol dda, amlygai ein cyfweliadau y gallai dealltwriaeth Aelodau anweithredol o berfformiad y Cyngor fod yn well.

## Mae gan y Cyngor fframwaith priodol ar gyfer rheoli risg, ond nid yw'r trefniadau ar gyfer hyn yn gweithio'n effeithiol bob tro

148 Diweddarodd y Cyngor ei bolisi rheoli risg yn 2015, gan gynnwys matrics risg newydd a phrofforma newydd i'w llenwi gan brif swyddogion wrth nodi risgiau. Er nad yw'r Cyngor wedi cynnig hyfforddiant ffurfiol i'w swyddogion ar y trefniadau newydd ar gyfer rheoli risg, cyfarfu aelod o dîm perfformiad corfforaethol y Cyngor â'i holl brif swyddogion ar sail un wrth un yn ystod tymor yr haf 2015 i esbonio'r polisi a'r trefniadau newydd ar gyfer rheoli risg.

149 Mae'r Cyngor wedi sefydlu grŵp rheoli risg gyda'r Prif Weithredwr Cynorthwyol - Adnoddau yn Gadeirydd arno. Caiff yr holl risgiau a nodir drwy gynlluniau tîm a gwasanaeth y Cyngor eu hadolygu i ddechrau gan y Grŵp Rheoli Risg Strategol hwn. Mae Grŵp Rheoli Risg Strategol y Cyngor yn rhoi adborth i feysydd gwasanaeth ar risgiau gwasanaeth newydd a newidiadau arfaethedig o ran categoreiddio risgiau. Mae'r Grŵp hefyd yn adrodd wrth Dîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor bob chwarter drwy gydol y flwyddyn ar faterion sy'n gysylltiedig â'r gofrestr risg a gweithredu'r fframwaith rheoli risg. Mae Grŵp Rheoli Risg Strategol y Cyngor hefyd yn cyflwyno adroddiadau diweddaru blynyddol i'r Cabinet ac i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ynghylch y fframwaith rheoli risg.

150 Bellach, defnyddir system rheoli perfformiad y Cyngor, Ffynnon, i gipio, adrodd, a monitro risgiau, gan olygu bod y gofrestr risg yn fwy gweladwy ar draws meysydd gwasanaeth a hefyd yn gorfforaethol. Dylai hyn fod yn fodd i sicrhau bod risgiau'n cael eu cofnodi mewn modd cyson, a'u bod yn cael eu monitro'n rhan o drefniadau cynllunio gwasanaeth a rheoli perfformiad presennol.

151 Mae rheoli risg wedi'i ymgorffori ym mhroses benderfynu'r Cyngor. Mae ystyriaeth o risgiau wedi'i chynnwys yn nhempledi adroddiadau pwyllgor. Fodd bynnag, gall y graddau yr ystyrir risgiau yn yr adroddiadau hyn amrywio. Er enghraifft, yn rhan o'n hasesiad, buom yn adolygu'r penderfyniad i ganiatáu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ymuno â'r GRhA. Daethom i'r casgliad nad oedd y broses ar gyfer nodi risgiau a chamau lliniaru mor gadarn â'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl yng nghyswllt mater mor bwysig, ac roedd y gofrestr risg i gyd-fynd â'r penderfyniad hwn yn anghyflawn.

| Cynigion ar gyfer gwella |
| --- |
| **Rheoli Risg:**<br>C8 Dylai'r Cyngor gymhwyso dull cyson a chadarn o nodi a rheoli risg ar draws yr holl wasanaethau, ac ar gyfer pob penderfyniad allweddol. |

## Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai ei berfformiad fod yn well ar draws rhai o'i brif wasanaethau a'i flaenoriaethau corfforaethol

152 Dangosai perfformiad y Cyngor yn 2014-15 fod y Cyngor wedi perfformio yn well ym 41 y cant o'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus[4], o gymharu â'i berfformiad yn 2013-14. Cafwyd dirywiad ym mherfformiad y Cyngor ym 52 y cant o'r dangosyddion, ac arhosodd perfformiad yn gyson yn saith y cant o'r dangosyddion. Roedd y Cyngor ymhlith y cynghorau a oedd wedi perfformio orau yng Nghymru yn 31 o'r dangosyddion, ac ymhlith cynghorau a oedd wedi perfformio waelaf yn 31 y cant o'r dangosyddion. Yn ei Adroddiad Blynyddol diweddaraf ar Berfformiad, adroddodd y Cyngor fod ei berfformiad cyffredinol wedi dirywio yn 2014-15, o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru, gyda nifer y dangosyddion yn y chwartel uchaf o ran perfformiad yn gostwng o 15 i 13, a nifer y dangosyddion yn y chwartel isaf yn cynyddu o saith i bedwar ar ddeg o gymharu â 2013-14.

153 Ym mis Chwefror 2016, dangosai gwybodaeth am berfformiad mewnol y Cyngor ar gyfer 2015-16 y sefyllfa ganlynol ym mis Rhagfyr 2015, ar gyfer mesurau olrhain perfformiad allweddol pob un o'i wasanaethau, o gymharu â'i berfformiad yn 2014-15. Dengys hyn fod 28 o 76 (37 y cant) o fesurau 'olrhain allweddol' ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor naill ai wedi'u cynnal neu eu gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Nodir yr wybodaeth hon yn Nhabl 1 isod.

4 Uned Ddata Cymru. Mae'n ofynnol i gynghorau Cymru adrodd ar nifer o Ddangosyddion Perfformiad bob blwyddyn. Ceir dau fath o ddangosydd - Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a osodir gan Lywodraeth Cymru, a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus a osodir gan lywodraeth leol.

Tabl 1 – Crynodeb o newid ym mherfformiad mesurau 'olrhain allweddol' y Cyngor rhwng 2014-15 a 2015-16 yn ôl maes gwasanaeth

| Maes gwasanaeth | Cyfanswm | Wedi gwella | Yn gyson | Wedi dirywio | Amh. |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | **14** | 0 | 3 | 9 | 2 |
| Cymdogaethau | **8** | 5 | 1 | 2 | 0 |
| Gofal Cymdeithasol a Thai | **12** | 5 | 0 | 4 | 3 |
| Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd | **6** | 3 | 1 | 2 | 0 |
| Adnoddau | **6** | 3 | 0 | 1 | 2 |
| Cymunedau | **14** | 5 | 0 | 0 | 9 |
| Prif Weithredwyr | **7** | 1 | 0 | 2 | 4 |
| Uned Cymorth Gwasanaethau Cyhoeddus | **9** | 1 | 0 | 1 | 7 |
| **Cyfanswm** | **76** | **23** | **5** | **21** | **27** |

Ffynhonnell: Adroddiad Asesu Perfformiad Corfforaethol Chwefror 2016

154 Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ei adolygiad a'i werthusiad blynyddol o berfformiad pob Cyngor yn 2014-15 ym mis Hydref 2015. Daeth i'r casgliad bod y Cyngor wedi parhau i weithio tuag at agenda newid ac at ddatblygu modelau cyflenwi gwasanaeth newydd, yn unol â disgwyliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf GCLIC) Gwnaed hyn yng nghyd-destun her ariannol sylweddol, yn ogystal â chynnydd yn y galw. Dywedodd AGGCC fod perfformiad wedi dirywio yn y gwasanaethau oedolion, a hynny'n gysylltiedig ag oedi wrth drosglwyddo gofal ac adolygu cynlluniau gofal. Er bod llai o bobl yn gymwys i dderbyn gwasanaethau Cyngor, roedd gan y rhai a oedd yn derbyn cymorth anghenion mwy cymhleth a oedd yn cynyddu'r galw a'r pwysau ar adnoddau oherwydd y cynnydd yn nifer yr adolygiadau yr oedd eu hangen. Cydnabyddir bod angen adeiladu cydnerthedd ac adnoddau cymunedol a all gefnogi pobl ynghynt, ac er bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo, mae angen cyflwyno newidiadau ynghynt.

155 O ran y gwasanaethau plant, adroddodd AGGCC hefyd fod perfformiad o ran asesiadau cychwynnol ac ymweliadau statudol ar gyfer plant dan ofal yn wannach na'r perfformiad mewn awdurdodau lleol eraill tebyg, a hefyd yn wannach na chyfartaledd Cymru Ar y llaw arall, cafwyd perfformiad gwell mewn cynadleddau diogelu plant cychwynnol ac mewn adolygiadau plant dan ofal.

156 Canfu AGGCC fod y Cyngor yn cydweithio'n dda â phartneriaid i sicrhau canlyniadau gwell yn y ffyrdd mwyaf effeithlon ac effeithiol. Yn y gwasanaethau oedolion, roedd trefniadau partneriaeth wedi'u sefydlu'n dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cyflenwi gwasanaethau eiddilwch. Roedd gwaith gyda'r trydydd sector hefyd yn datblygu ymhellach drwy Gynghrair Gwirfoddol Torfaen, er y bydd angen datblygu'r gwaith hwn ymhellach a'i atgyfnerthu er mwyn bodloni gofynion y Ddeddf GCLl. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu De Ddwyrain Cymru yn enghraifft o gydweithio ag awdurdodau lleol cyfagos yng Ngwent. Mae gwaith yn mynd rhagddo, ond ar adegau mae angen datblygu'r gwaith hwnnw'n gynt gydag egni newydd ac amcanion clir.

157 Cafwyd gwelliant ym mherfformiad y Cyngor yn y dangosyddion gofal cymdeithasol plant ym mhedwar o'r un dangosydd perfformiad NSI ar ddeg yn 2014-15, o gymharu â'r perfformiad a adroddwyd ganddo yn 2013-14; cafwyd yr un perfformiad ag o'r blaen yn nau o'r dangosyddion a dirywiad mewn perfformiad yn y pum dangosydd a oedd yn weddill. Wrth gymharu â chynghorau eraill Cymru, gwelir bod perfformiad Torfaen yn cyrraedd cyfartaledd Cymru neu'n uwch yn saith o'r un dangosydd ar ddeg, a bod y perfformiad hwnnw'n is na'r cyfartaledd yn y pedwar dangosydd a oedd yn weddill yn 2014-15

158 O ran gwasanaethau addysg, casglodd Estyn ym mis Ionawr 2016 fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd digonol yn gysylltiedig â'r argymhellion a gafwyd yn dilyn arolygiad 2011 ac ymweliad monitro llawn 2013. O ganlyniad i hyn, roedd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o'r farn nad oedd angen mesurau arbennig ar y Cyngor mwyach. Y mae felly wedi eithrio'r Cyngor o unrhyw weithgarwch dilynol.

159 Ers yr ymweliad monitro llawn ym mis Chwefror 2013, dywedodd estyn fod y Cyngor wedi cyflwyno gwelliannau cyson i ddeilliannau ei ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Bu'r gyfradd wella yn Nhorfaen yn gynt na'r gyfradd wella ar draws Cymru yn yr holl brif ddangosyddion pennawd, er i'r sir ddechrau o linell sylfaen isel iawn. Mae Llywodraeth Cymru'n gosod meincnodau ar gyfer perfformiad cynghorau yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn seiliedig ar y nifer sydd â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim. Methodd y Cyngor â chyrraedd unrhyw un o'i dri tharged a oedd wedi'u meincnodi yn 2015, ar ôl cyrraedd un o'i dargedau yn 2014 a hefyd yn 2013.

160 Cafwyd gwelliant ym mherfformiad y Cyngor yn chwech o'r un mesur addysg NSI ar ddeg yn 2014-15. Parhaodd ei berfformiad ar yr uchafswm, sef perfformiad o 100 y cant, yn nau o'r un mesur addysg ar ddeg, a dirywiodd yn y tri mesur addysg a oedd yn weddill yn 2014-15. O gymharu â chynghorau eraill Cymru, roedd perfformiad y Cyngor yn erbyn y mesurau addysg yn is na'r cyfartaledd yn chwech o'r un dangosydd ar ddeg, ac yn unol â'r cyfartaledd neu'n uwch ym mhump o'r dangosyddion. Roedd y Cyngor yn y safle cyntaf o blith 22 o gynghorau Cymru yn nhri o'r mesurau addysg.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Cwblhawyd y gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad o welliant yn asesiad blaengar o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Y mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi crynodeb o'i waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol a gyhoeddir ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru